Rhan C – Pleidleisio absennol

Cynnwys

1 Cyflwyniad
- Y weithdrefn pleidleisio absennol

2 Pleidleisio drwy'r post a hygrededd
- Pleidleisio drwy'r post, tai amlbreswyliaeth a sefydliadau

3 Amserlen a gwybodaeth pleidleisio absennol
- Amserlen ar gyfer pleidleisio absennol
- Cyfathrebu'r broses pleidleisio absennol

4 Pleidleisio drwy ddirprwy
- Cyfyngiadau ar niferoedd dirprwyon

5 Cyflwyno a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post
- Personau â'r hawl i fod yn bresennol
- Gofynion cyfrinachedd
- Amseru'r cyflwyno
- Paratoi deunydd papur pleidleisio drwy'r post
- Logisteg
- Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno pleidleisiau drwy'r post
- Ail-gyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post
- Cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post yn hwyr

6 Amnewid pleidleisiau drwy'r post
- Amnewid papurau pleidleisio a ddifethwyd
- Amnewid papurau pleidleisio a gollwyd

7 Derbyn, agor a storio pleidleisiau drwy'r post
- Derbyn pleidleisiau drwy'r post
- Diogeledd pleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd
- Papurau pleidleisio drwy'r post a ddosbarthwyd i'r orsaf bleidleisio
- Cofnodi a darparu tystiolaeth o weithredu
- Y broses agor
- Blychau a phacedi pleidleisiau drwy'r post
- Agor y blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post
- Agor a dilysu pleidleisiau drwy'r post a ddosbarthwyd i orsafoedd pleidleisio

Cadarnhau derbyn datganiadau pleidleisio drwy'r post
Gwirio'r datganiadau pleidleisio drwy'r post a dilysu dynodyddion personol
Agor yr amlenni papurau pleidleisio drwy'r post
Cyfateb dogfennau a wahanwyd
Selio'r blwch pleidleisio drwy'r post
Adalw pleidleisiau drwy'r post a ganslwyd
Datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post

Atodiad – Adnoddau

Hysbysiad o ofynion cyfrinachedd
Gwirio llofnodion mewn sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post

1 Cyflwyniad

Y weithdrefn pleidleisio absennol

1.1 Mae pleidleisio drwy'r post wedi dod yn brosiect mawr o fewn y broses etholiadol gyffredinol, yn nhermau rheoli staff ac adnoddau, technoleg ac ymdrin â materion hygrededd. At hynny, mae pleidleisio drwy'r post yn ddiweddar wedi denu sylw sylweddol gan y cyfryngau a'r cyhoedd yn nhermau rheoli'r broses ac, yn fwy penodol, yn nhermau materion hygrededd. Mae cynllunio a pharatoi effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y rhan hon o weinyddu'r etholiad.

Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu rôl y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Gellir gweld manylion y **broses ymgeisio** pleidleisio absennol a dyletswyddau eraill y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Rhan E *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr: canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn* www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services.

Mae *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU* yn ystyried ymagwedd rheoli prosiect tuag at gyflwyno'r etholiad ac yn cynnwys cyngor ar gaffael a rheoli contractau effeithiol. Gellir ei weld yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Cyfuno
Lle y cyfunir etholiadau, gall y Swyddogion Canlyniadau perthnasol gytuno ar gynnal y gweithrediadau ar gyflwyno a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post gyda'i gilydd. Os yw'r bleidlais mewn etholiad Seneddol y DU wedi'i chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall, bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried a yw hyn yn briodol, neu a ddylid cadw'r gweithrediadau ar wahân.

Am fwy o wybodaeth ar rannu swyddogaethau mewn etholiadau cyfunol, gweler Rhan E, 'Cyfuno pleidleisiau', Adran 2, 'Trefniadau cyfuno'.

Etholaethau traws-ffiniol

Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ag etholaethau sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol ystyried pa effaith fydd hyn yn ei chael ar eu prosesau ac a fydd angen iddynt ddirprwyo rhai o'u swyddogaethau i uwch swyddog yn yr awdurdod lleol arall. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyd-gysylltu'n agos â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a staff etholiadau yn yr awdurdod perthnasol er mwyn nodi unrhyw faterion posib a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain. Gallai cytunedd data'r gofrestr fod yn un mater posib. Er enghraifft, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sefydlu a yw eu meddalwedd yn gallu darllen y data a ddarperir gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol eraill.

Am ganllawiau ar faterion sy'n gysylltedig ag etholaethau traws-ffiniol, gweler Adran 5, 'Pa faterion sy'n benodol i'r etholiad hwn?' yn Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU.

2 Pleidleisio drwy'r post a hygrededd

2.1 Mae Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) mewn sefyllfa dda i nodi digwyddiadau a phatrymau gweithgarwch a allai nodi camymddygiad etholiadol. Fodd bynnag, gwnaeth y dyfarniad mewn dau achos deisebau etholiadol yn Birmingham yn 2004 yn glir nad rôl y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yw archwilio twyll posib.

> Nid oes gan y Swyddog Canlyniadau unrhyw ddyletswydd i archwilio troseddau etholiadol na'r adnoddau i wneud hynny chwaith. Yn bwysicach fyth… nid oes gan y Swyddog Canlyniadau unrhyw bŵer i archwilio.[1]

Cadarnheir hyn ym mharagraffau 142 a 143 y dyfarniad, y mae'r cyntaf ohonynt hefyd yn cwmpasu rhai o swyddogaethau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

2.2 Os oes gan unrhyw Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) amheuon am weithgarwch twyllodrus, neu'n derbyn unrhyw honiadau am dwyll pleidleisio absennol posib, dylid adrodd y rhain i'r heddlu i'w harchwilio ymhellach. Dylai cyd-gysylltu cynnar gyda Phwynt Cyswllt Sengl yr Heddlu yn ystod y broses gynllunio fod wedi amlygu pryd fydd agweddau allweddol y prosesau pleidleisio drwy'r post yn digwydd a'r camau cytunedig i'w cymryd pe byddai unrhyw amheuon yn codi.

Pleidleisio drwy'r post, tai amlbreswyliaeth a sefydliadau preswyl

2.3 Mae tybiaeth fod twyll etholiadol yn haws ei gyflawni mewn tai amlbreswyliaeth (HMOs) a sefydliadau aml-etholwr eraill. Er enghraifft, ofnir weithiau y gellir dylanwadu ar breswylwyr mewn cartrefi nyrsio, cartrefi gofal a llety cysgodol arall sy'n dibynnu ar ofalwyr am gymorth, neu y gellir dwyn eu pleidlais. Mae potensial hefyd mewn unrhyw HMO neu sefydliad aml-etholwr tebyg lle nad oes gan breswylwyr flwch post diogel, fel mewn llety myfyrwyr neu fflatiau un ystafell, i bleidleisiau drwy'r post gael eu rhyng-gipio a'u defnyddio'n dwyllodrus.

2.4 Gellir gofyn i staff domestig a gofal sy'n ymweld gynorthwyo â phleidleisiau drwy'r post, a bydd gan bob un fynediad i etholwyr niferus. Lle mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ystyried ei fod yn briodol, dylent anfon llythyrau i gynnig cyngor i staff a chyfleusterau gofal o'r fath cyn yr etholiad.

2.5 Pan yn cynnig cyngor, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bwysleisio:

[1] Gweler Penderfyniad y Comisiynydd Mawrey QC 4ydd Ebrill 2005, www.hmcourts-service.gov.uk/cms/2384.htm.

- y dylai'r penderfyniad ar bleidleisio a phleidlais yr etholwr fod yn benderfyniad iddyn nhw'u hunain
- yr angen am gyfrinachedd wrth bleidleisio
- parodrwydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gyfeirio unrhyw gais neu bleidlais drwy'r post amheus at yr heddlu i'w archwilio
- y cosbau y gellir eu cymhwyso
- nad yw pŵer twrnai yn caniatáu i rywun bleidleisio ar ran person arall

2.6 Os oes amheuaeth ynghylch a fydd papurau pleidleisio yn cael eu dosbarthu'n gywir, gallai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) drefnu eu dosbarthu â llaw i HMOs, a gallent geisio nodi person cyfrifol i ddosbarthu'r amlenni o fewn yr eiddo.

3 Amserlen a gwybodaeth pleidleisio absennol

Amserlen ar gyfer pleidleisio absennol

3.1 Y terfyn amser ar gyfer newidiadau (yn cynnwys canslo) i geisiadau drwy'r post, dirprwy a dirprwy drwy'r post yw **5pm, 11 diwrnod gwaith** cyn diwrnod y pleidleisio.[2] Y terfyn amser ar gyfer ceisiadau drwy'r post a dirprwy drwy'r post newydd yw **5pm, 11 diwrnod gwaith** cyn diwrnod y pleidleisio hefyd. Y terfyn amser ar gyfer ceisiadau drwy ddirprwy newydd yw **5pm, chwe diwrnod gwaith** cyn diwrnod y pleidleisio.

3.2 Mae darpariaeth hefyd sy'n caniatáu penodi dirprwy mewn sefyllfa lle ceir cyflwr meddygol, salwch neu anabledd brys sy'n codi ar ôl y terfyn amser ar gyfer ceisiadau dirprwy arferol, yn amodol ar ddarparu'r dystiolaeth briodol. Y terfyn amser ar gyfer hyn yw **5pm ar ddiwrnod y pleidleisio.**[3] Mae hawl gan gleifion iechyd meddwl y'u cedwir o dan bwerau sifil hefyd yr hawl i benodi dirprwy **hyd at 5pm ar ddiwrnod y pleidleisio**.

3.3 Yn fuan ar ôl i'r terfynau amser hyn fynd heibio, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu darparu'r rhestr pleidleiswyr absennol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) er mwyn gallu cynhyrchu pecynnau pleidleisio drwy'r post a chreu rhestri o bleidleiswyr drwy ddirprwy. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyd-gysylltu'n agos â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ynghylch trosglwyddo data.

3.4 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) weithio'n agos â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i gytuno ar ddull effeithlon a diogel ar gyfer trosglwyddo hysbysiad o geisiadau llwyddiannus am ddirprwy brys; gallai hyn fod yn ysgrifenedig, ar lafar neu'r ddau. Ar ôl i gais am ddirprwy brys gael ei dderbyn, dylai'r system hysbysu a gytunwyd rhwng y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod y dirprwy yn gallu arfer ei hawl i bleidleisio. Dylid cyfathrebu'r dull a ddewiswyd i Swyddogion Llywyddu fel rhan o'u hyfforddiant.

Cyfathrebu'r broses pleidleisio absennol

3.5 Ar ôl i etholiad cyffredinol Seneddol y DU gael ei alw, nid oes llawer o amser i hysbysu'r cyhoedd am y terfynau amser amrywiol sy'n gysylltiedig â'r broses pleidleisio absennol. Mae felly yn syniad da cyhoeddi'r opsiynau sydd ar gael i bleidleiswyr yn y cyfnod yn arwain at etholiadau fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu ehangach.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adran 13, 'Cyfathrebu' yn *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU*, sydd ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

[2] Rheoliad 56(1), RPR 2001.
[3] Rheoliad 56(3A), RPR 2001.

Ar ôl i'r etholiad gael ei alw, dylai unrhyw ddeunydd hyrwyddo am bleidleisio absennol ddarparu gwybodaeth allweddol am y broses pleidleisio absennol, yn cynnwys:

- y terfynau amser ar gyfer derbyn ceisiadau drwy'r post a thrwy ddirprwy (yn cynnwys gwneud newidiadau i unrhyw drefniant presennol)
- y dyddiad y disgwylir y bydd pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu hanfon allan (gan gadw mewn cof y gallai ffactorau fel oedi posib o ran argraffu neu'r post olygu bod papurau yn cyrraedd yn hwyrach na'r disgwyl)
- sut a phryd i gael pecynnau pleidleisio drwy'r post newydd a'r modd adnabod sydd ei angen

4 Pleidleisio drwy ddirprwy

4.1 Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rhoi i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) restr o'r holl etholwyr sydd wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan.

4.2 Mae dirprwyon yn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio lle roedd yr etholwr i fod i bleidleisio. Os, fodd bynnag, nid yw'r dirprwy yn gallu dod i'r orsaf bleidleisio'n bersonol, gallant wneud cais am bleidlais drwy'r post a dod yn 'ddirprwy drwy'r post'. Bydd y rhestr y cyfeiriwyd ati uchod hefyd yn cynnwys manylion dirprwyon drwy'r post. Dylid anfon pecyn pleidleisio drwy'r post i'r dirprwyon hyn yn y fformat ar gyfer dirprwyon drwy'r post. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) farcio cofrestr yr orsaf bleidleisio gydag 'A' fel na fydd y Swyddog Llywyddu yn caniatáu i'r etholwr na'r dirprwy bleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio.

4.3 Mae nifer o sefyllfaoedd posib a allai ddigwydd mewn perthynas ag etholwyr a'u dirprwyon yn pleidleisio yn bersonol, a rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod Swyddogion Llywyddu a'u staff wedi'u briffio'n dda i ymdrin â hwy'n briodol.

Mae *Llawlyfr staff gorsaf bleidleisio* a *Chanllaw cyflym i staff gorsaf bleidleisio* y Comisiwn yn cynnwys gwybodaeth ar bleidleisio drwy'r post mewn gorsafoedd pleidleisio yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Cyfyngiadau ar niferoedd dirprwyon

4.4 Ni all berson gael mwy na un dirprwy ar unrhyw adeg.[4]

4.5 Mae hawl gan berson bleidleisio fel dirprwy mewn etholaeth Seneddol y DU ar ran dau etholwr nad ydynt yn berthnasau agos. Gall berson yn ychwanegol at hynny weithredu fel dirprwy i unrhyw nifer o'r perthnasau canlynol: cymar, partner sifil, rhiant, rhiant cu, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr/wyres.[5] Nid oes terfyn ar nifer y perthnasau agos hyn y gall dirprwy bleidleisio ar eu rhan.

4.6 Mae'r cyfyngiad ar bleidleisio fel dirprwy i fwy na dau o bobl nad ydynt yn berthnasau agos (fel y diffiniwyd uchod) yn gymwys ar wahân i bob etholaeth. Gallai person felly bleidleisio ar ran dau etholwr nad ydynt yn berthnasau agos mewn unrhyw nifer o etholaethau Seneddol **gwahanol** y DU.

4.7 Nid yw'n drosedd cael eich penodi fel dirprwy gan fwy na dau o bobl, ond mae'n drosedd pleidleisio ar ran mwy na dau o bobl nad ydynt yn

[4] Paragraff 6(2)(a), RPA 2000.
[5] Paragraff 6(6), RPA 2000.

berthnasau agos (fel y diffiniwyd uchod) yn yr un etholaeth mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU.[6]

[6] Adran 61, RPA 1983.

5 Cyflwyno a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post

Personau â'r hawl i fod yn bresennol

5.1 Yr unig bobl â'r hawl i fod yn bresennol adeg cyflwyno'r pecynnau pleidleisio drwy'r post yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), eu staff, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac unrhyw arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn.[7] Nid oes hawl gan ymgeiswyr a'u hasiantau fynychu.

Gofynion cyfrinachedd

5.2 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod pob person sy'n bresennol adeg cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post yn derbyn copi o'r gofynion cyfrinachedd fel y nodwyd yn Adran 66(4) a (6) yr RPA 1983.[8]

Darperir copi o'r hysbysiad o ofynion cyfrinachedd yn yr Atodiad.

Amseru'r cyflwyno

5.3 Penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yw pryd dylai cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post ddigwydd, er na ellir cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post tan ar ôl 5pm ar yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn y bleidlais. [9]

Dylid cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post i bawb sydd wedi gwneud cais cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad terfyn ar gyfer ceisiadau newydd am bleidleisiau drwy'r post ac am wneud newidiadau i bleidleisiau drwy'r post presennol, sef 11 diwrnod gwaith cyn diwrnod y pleidleisio. Bydd hyn yn rhannol yn dibynnu ar ba mor gyflym y gellir cynhyrchu'r papurau pleidleisio, yn enwedig gan na all cynhyrchu ddigwydd tan ar ôl i'r enwebiadau gau am 4pm, 11 diwrnod gwaith cyn diwrnod y pleidleisio.

Nod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddylai fod caniatáu cymaint o amser â phosib i bleidleiswyr drwy'r post gwblhau a dychwelyd eu pleidleisiau. I gyflawni hyn, dylid cyflwyno ac anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosib ar ôl i'r enwebiadau gau.

Efalla bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried staffio ychwanegol er mwyn sicrhau bod modd cyflwyno'r holl becynnau pleidleisio drwy'r post mor gynnar â phosib.

[7] Rheoliad 67, RPR 2001.
[8] Rheoliad 70, RPR 2001.
[9] Rheoliad 71, RPR 2001.

Dylid blaenoriaethu pecynnau pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholwyr gwasanaeth a thramor bob amser. Dylid eu didoli a'u nodi i'r darparwr gwasanaeth post er mwyn gallu eu hanfon gyda'r gwasanaeth post priodol.

Ni ellir cyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post i etholwr tan y dyrannir rhif etholwr iddynt, sy'n golygu ni ellir anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post i bleidleiswyr drwy'r post sydd wedi cofrestru o dan y rheol 11 diwrnod tan i'r hysbysiad o newid gael ei gyhoeddi ar y pumed diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Mae hyn yn golygu y dylai cyflwyno ac anfon y pecynnau pleidleisio drwy'r post terfynol hyn ddigwydd cyn gynted â phosib ar ôl yr amser hwn.

Paratoi deunydd papur pleidleisio drwy'r post

5.4 Mae'n hanfodol sicrhau bod papurau pleidleisio digonol a digon o'r deunydd papur arall gofynnol ar gael i allu cwrdd â'r galw pe byddai galw uchel hwyr am geisiadau. Mae pecyn pleidleisio drwy'r post yn cynnwys:

- papur pleidleisio
- datganiad pleidleisio drwy'r post
- amlen papur pleidleisio 'A'
- amlen anfon allan
- amlen ddychwelyd 'B'

5.5 Dylai'r amlen papur pleidleisio 'A' a'r amlen ddychwelyd 'B' gynnwys arnynt enw'r etholaeth a chyfeiriad dychwelyd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried cynhyrchu taflen esboniadol, mewn fformat graffigol, i gynorthwyo'r pleidleisiwr wrth farcio'r papur pleidleisio a chwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post.

5.6 Yn draddodiadol bu dau brif ddull o baratoi deunydd papur pleidleisiau drwy'r post: yn fewnol, lle mae deunydd papur pleidleisio drwy'r post yn cael ei argraffu a'i baratoi gan staff etholiadau neu argraffwyr mewnol; ac argraffu a brynir i mewn, lle mae deunydd papur pleidleisio drwy'r post yn cael ei argraffu neu ei argraffu a'i goladu gan dŷ argraffu allanol.

Am ystyriaeth bellach o gynhyrchu deunydd papur pleidleisiau drwy'r post yn cynnwys eglurhad o'r deunyddiau y mae'n rhaid eu cynhyrchu, gweler Adran 6, 'Partneriaid allanol' ac Adran 14, 'Pleidleisio drwy'r post' canllawiau cynllunio'r Comisiwn *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU,* sydd ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Wrth gynhyrchu canllawiau i bleidleiswyr i'w cynorthwyo gyda chwblhau a dychwelyd eu pleidleisiau drwy'r post, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) dalu sylw dyledus i *Making your mark*, canllawiau'r comisiwn ar ddylunio deunyddiau i bleidleiswyr, sydd ar gael yn www.dopolitics.org.uk/making-your-mark.

5.7 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei wneud yn ofynnol bod y rhestr pleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr pleidleiswyr drwy ddirprwy drwy'r post yn cael eu marcio i gadarnhau bod datganiad pleidleisio drwy'r post wedi cael ei dderbyn yn ôl gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).[10] Yn ogystal, ar unrhyw adeg ar ôl cyflwyno pecynnau papurau pleidleisio drwy'r post hyd at gau'r bleidlais, gall etholwyr ofyn am gadarnhad ynghylch a yw eu pleidlais drwy'r post wedi cael ei derbyn yn ôl ac a yw wedi'i chofnodi ar un o'r ddwy restr o bleidleisiau a wrthodwyd.[11] Mae gan y gofynion hyn oblygiadau ar gyfer cynhyrchu deunydd papur pleidleisio drwy'r post, oherwydd bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau eu bod yn gallu marcio derbyn datganiadau pleidleisio drwy'r post yn ôl yn hawdd ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr pleidleiswyr drwy ddirprwy drwy'r post.

5.8 Gallai fod yn bosib ymgymryd â'r dasg gofnodi hon â llaw drwy gyfeirio at rif y papur pleidleisio y mae'n ofynnol ei argraffu ar y datganiad pleidleisio drwy'r post; ond lle mae Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn dymuno awtomeiddio neu rannol-awtomeiddio'r broses, bydd angen ystyried a all y deunydd papur gael ei gynhyrchu'n fewnol neu a fydd angen ei brynu i mewn.

5.9 Mae'n ofynnol hefyd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynhyrchu gwahanol ffurfiau ar ddatganiad pleidleisio drwy'r post i etholwyr dienw ac i'r rheiny y rhoddwyd hepgoriad iddynt. **Ni** ddylai'r datganiad pleidleisio drwy'r post i etholwyr dienw ddangos enw'r etholwr; lle y rhoddwyd hepgoriad i'r etholwr gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, rhaid hepgor y blwch llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post ac unrhyw gyfeiriad at lofnodi yn y cyfarwyddiadau i bleidleiswyr.[12]

Mae'r deunydd papur cysylltiedig â phleidleisio drwy'r post wedi'i ragnodi mewn deddfwriaeth. Er mwyn osgoi unrhyw her bosib i'r broses pleidleisio drwy'r post, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) felly fod yn fodlon fod y deunydd papur pleidleisio drwy'r post yn gyfreithlon. Mae'r cyfrifoldeb dros gydymffurfio â'r gyfraith yn parhau gyda'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), hyd yn oed os defnyddir contractwyr.

Am fwy o wybodaeth ar yr hyn y dylai'r pleidleisiwr drwy'r post ei dderbyn, cyfeiriwch at Adran 14, 'Pleidleisio drwy'r post' ganllawiau cynllunio'r Comisiwn *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU.*

Logisteg

5.10 Mae cyflwyno pleidleisiau drwy'r post yn rhan hanfodol o weinyddu'r etholiad, ond mae'r amserlenni ar gyfer cyflwyno pleidleisiau drwy'r post yn dynn, gyda'r terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau pleidleisio drwy'r post yn 11 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

[10] Rheoliad 84(7), RPR 2001; Rheoliad 84(6), RPR (yr Alban) 2001.
[11] Rheoliad 84A, RPR 2001.
[12] Ffurflenni G, H a J, RPR 2001.

5.11 Mae hyn ynddo'i hun yn creu anawsterau logistaidd ar gyfer cyflwyno pleidleisiau drwy'r post yn amserol ac yn llwyddiannus. Pan y'i cyfunir â ffactorau eraill, fel anawsterau yn recriwtio staff neu niferoedd uchel o geisiadau yn cyrraedd yn agos at y terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau ac yn oedi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol rhag anfon y rhestr pleidleisiau absennol derfynol at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), gall cyflwyno pleidleisiau drwy'r post fod yn broblematig. Os na chaiff ei reoli'n iawn, gallai hyn o bosib roi gweinyddu'r etholiad mewn perygl.

5.12 Mae yna, fodd bynnag, fesurau y gellir eu rhoi yn eu lle i leihau'r risg i gynnal yr etholiad yn llwyddiannus yn nhermau cynhyrchu a chyflwyno pleidleisiau drwy'r post, y disgrifir rhai ohonynt isod.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu patrymluniau o ddogfennau cynllunio i gefnogi'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrth nodi a rheoli'r risgiau sy'n benodol i'w hardal a'u hamgylchiadau. Mae tystiolaeth o reoli risgiau yn effeithiol hefyd yn hanfodol i gwrdd â safon perfformiad 2, yn ogystal â bod yn rhywbeth y byddai ei angen gan yswirwyr pe byddai unrhyw her i benderfyniadau neu ganlyniadau'r etholiad.

Gellir lawrlwytho'r patrymluniau hyn o wefan y Comisiwn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections, ac fe'u cynhyrchwyd mewn fformat Word i'w haddasu i weddu i amgylchiadau lleol.

Ystyriaethau ymarferol wrth gyflwyno pleidleisiau drwy'r post yn fewnol

5.13 Dylid datblygu amserlen ar gyfer cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post, y dylai fod o fewn iddi ddigon o hyblygrwydd i alluogi ymgymryd â chyflwyno ychwanegol, pe byddai hyn yn angenrheidiol. Cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yw penodi digon o staff i gyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post.

5.14 Mae mesurau ymarferol a all gynorthwyo gyda chynnal y broses gyflwyno yn ddidrafferth fel a ganlyn:

- Treialon i sefydlu pan mor hir y gallai'r cyflwyno gymryd ac i nodi unrhyw welliannau mewn cynllun a phroses.
- Gellir paratoi peth deunydd papur ymlaen llaw; er enghraifft, ystyriwch argraffu amlenni gyda'r cyfeiriad dychwelyd ac enw'r etholaeth, a rhifo a chyfeirio amlenni i'w hanfon allan.
- Darlun o'r cynllun ar gyfer y timau/proses a chyfarpar.
- Paratoi blychau cyfarpar ar gyfer pob prif gyflwyniad, a allai gynnwys:
  - rhestr pleidleiswyr drwy'r post
  - offerynnau stampio (os yn cael eu defnyddio)
  - rhestri rhifau cyfatebol
  - datganiad y pleidleisiau drwy'r post a gyflwynwyd
  - setiau o amlenni ar gyfer y rhestri rhifau cyfatebol
  - blychau weiar

- pinnau
- pensiliau
- clipiau ‘bulldog’
- clipiau papur
- bandiau rwber
- taflenni rheolyddion
- prennau mesur
- naddwyr pensiliau
- taflen llofnodion staff i nodi’r holl staff sy’n bresennol

- Caffael llestri priodol i drosglwyddo’r pecynnau pleidleisio drwy’r post i’r Post Brenhinol neu gwmni dosbarthu masnachol (os nad yn dosbarthu â llaw).
- Trafod y broses cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy’r post a chael cyfarwyddiadau ysgrifenedig yn barod i’r staff. Sicrhewch fod goruchwyliaeth ddigonol yn ei lle, yn enwedig pan yn defnyddio staff ag ychydig neu ddim profiad o weithdrefnau cyflwyno.
- Hyfforddi goruchwylwyr i sicrhau y gallant gyfeirio’r broses yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Cyfarwyddo goruchwylwyr i gynnal gwiriadau ar hap yn rheolaidd yn ystod pob cyflwyniad pecynnau pleidleisio drwy’r post i sicrhau bod y manylion cywir yn ymddangos ar y deunydd papur pleidleisio a bod y deunydd papur cywir yn yr amlen i’w hanfon allan.

Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy’r post

5.15 Gellir crynhoi’r broses gyflwyno fel a ganlyn:[13]

- Rhaid i bob papur pleidleisio drwy’r post ddwyn y marc swyddogol (naill ai drwy ei stampio gydag offeryn stampio neu drwy ddangos rhyw farc diogeledd arall fel dyfrnod neu dan-nod), a chael marc adnabod unigryw ar y cefn. Rhaid i’r marc adnabod unigryw hwn fod yn unigryw i’r papur pleidleisio a gallai fod naill ai yn god bar neu fod ar ffurf arall fel rhif y papur pleidleisio gan ychwanegu rhagddodiad neu ôl-ddodiad. Rhaid i bob papur pleidleisio drwy’r post gael rif unigryw ar y cefn hefyd.
- Rhaid i rif yr etholwr gael ei farcio ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ochr y rhif papur pleidleisio.
- Rhaid gosod marc yn y rhestr pleidleiswyr drwy’r post (neu’r rhestr pleidleiswyr drwy’r post drwy ddirprwy yn ôl y drefn).
- Rhaid i rif y papur pleidleisio drwy’r post gael ei farcio ar y datganiad pleidleisio drwy’r post a anfonir gyda’r papur pleidleisio hwnnw.
- Y cyfeiriad y dylid anfon y pecyn pleidleisio drwy’r post iddo yw’r cyfeiriad a ddangosir yn y rhestr pleidleiswyr drwy’r post perthnasol. Yn achos dirprwy drwy’r post, dyma’r cyfeiriad a ddangosir yn y rhestr pleidleiswyr drwy’r post drwy ddirprwy.

[13] Rheoliad 72, RPR 2001.

Rhoddir manylion pellach y broses gyflwyno isod.

Cadw cofnodion

5.16 Wrth i'w papurau pleidleisio a'u hamlenni gael eu cyflwyno i bleidleiswyr drwy'r post, mae angen marcio'r rhestr rhifau cyfatebol a'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post (neu'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy, fel y bo'n briodol).[14]

Y rhestr rhifau cyfatebol

5.17 Mae'r rhestr rhifau cyfatebol yn cofnodi manylion pa bapur pleidleisio sy'n cael ei gyflwyno i ba bleidleisiwr drwy'r post neu bleidleisiwr drwy'r post drwy ddirprwy, ynghyd â'r marc adnabod unigryw sy'n berthnasol i bob papur pleidleisio. Yn y cyflwyno, rhai i rif yr etholwr gael ei farcio ar y rhestr yn erbyn rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw. Y rhestr rhifau cyfatebol i'w defnyddio mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU yw Ffurflen L1,[15] a gedwir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac nid yw'r un peth â'r ffurflen a anfonir i orsafoedd pleidleisio.

5.18 Rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol sy'n berthnasol i'r papurau pleidleisio a gyflwynwyd gael ei selio mewn pecyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pob cyflwyniad pecynnau pleidleisio drwy'r post, a gellir ei agor a'i archwilio dim ond ar orchymyn gan lys.[16] Mae angen rhestri a phecynnau cysylltiedig newydd felly ym mhob cyflwyniad. Gellir argraffu'r rhestr ar un ochr a'i thorri ar y pwynt lle y cyflwynwyd y papur pleidleisio olaf yn unrhyw gyflwyniad unigol o becynnau pleidleisio drwy'r post. Yna gall y rhestr rhifau cyfatebol sy'n aros gael ei defnyddio mewn unrhyw sesiynau cyflwyno pellach ac ar gyfer cyflwyno papurau pleidleisio drwy'r post newydd.

Rhestri pleidleisiwyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy

5.19 Dylid gosod dyfrnod hefyd ar y rhestr pleidleisiwyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy fel y bo'n briodol yn erbyn enw'r etholwr, i ddynodi bod pecyn pleidleisio drwy'r post wedi cael ei gyflwyno i'r etholwr neu ei ddirprwy.[17] Wrth i bleidleisiau drwy'r post gael eu dychwelyd gan bleidleiswyr, bydd gofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) farcio dychwelyd pob datganiad pleidleisio drwy'r post ar y rhestri pleidleisiwyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy, fydd yn cael ei defnyddio i gadarnhau i etholwyr a'u dirprwyon a yw eu datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i dderbyn yn ôl, ac a yw wedi'i gofnodi ar un o'r ddwy restr o bleidleisiau a wrthodwyd. Ar ôl yr etholiad, bydd y rhestri pleidleisiwyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd ac ar gael i'w gwerthu i'r Comisiwn Etholiadol, cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr, heddluoedd ac adrannau'r llywodraeth**.**[18]

[14] Rheoliad 72(2) a (3), RPR 2001.
[15] Atodiad ffurflenni, RPR 2001.
[16] Rheoliad 75(1) a (2), RPR 2001.
[17] Rheoliad 72(3), RPR 2001.
[18] Rheoliadau 117 a 118, RPR 2001.

5.20 Ni ddylid selio'r rhestri pleidleisiwyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy yn y pecynnau priodol tan ar ôl sesiwn olaf agor papurau pleisleisio drwy'r post, ond rhaid eu cadw'n ddiogel tan hynny.[19] Ar ôl i'r sesiwn olaf agor papurau pleisleisio drwy'r post gael ei chwblhau, dylid selio'r pecynnau sy'n cynnwys y rhestri pleidleisiwyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy a'u storio mewn lle diogel.[20]

5.21 Gellir dal y rhestri pleidleisiwyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy ar ffurf electronig. Os mai dyma'r sefyllfa, ar ddiwedd y broses dylid trosglwyddo'r copi electronig i ffurf ffisegol (er enghraifft ei losgi i CD-Rom) a'i selio i mewn i'r pecynnau. Dylid gwneud copi papur o'r rhestri a farciwyd hefyd a'i storio yn y pecynnau, gan sicrhau nad yw dileu'r data a storir yn electronig yn ddamweiniol yn esgor ar golli'r rhestri.

Anfon allan

5.22 Mae gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddewis o dri dull ar gyfer dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post:[21]

- darparwr gwasanaeth hollgynhwysfawr, o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Post 2000
- cwmni dosbarthu masnachol
- staff a benodwyd at ddibenion yr etholiad

5.23 Os yn defnyddio darparwr gwasanaeth hollgynhwysfawr neu gwmni dosbarthu masnachol ar gyfer cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post, rhaid i nifer yr amlenni gael eu cyfrif a rhaid i dderbynneb a lofnodwyd gan y sawl sy'n casglu'r amlenni gael ei throsglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) .[22] Dylid gwneud trefniadau ar gyfer casglu pecynnau pleidleisio drwy'r post a gyflwynwyd ymlaen llaw, gyda chyfathrebu clir ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno.

5.24 Os nad yn defnyddio â llaw gan ddefnyddio staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), rhaid i'r cost postio gael ei dalu ymlaen llaw ar yr amlen i'w hanfon allan, sydd wedi'i chyfeirio at y pleidleisiwr drwy'r post. Rhaid talu'r cost postio ar yr holl amlenni dychwelyd hefyd, ac eithrio lle mae pleidleisiau drwy'r post yn cael eu dychwelyd o'r tu allan i'r DU.[23]

5.25 Gellir penodi staff gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gyflwyno'r pecynnau pleidleisio drwy'r post â llaw. Gall staff a benodwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol fel canfaswyr fod yn addas ar gyfer dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan y byddant yn gyfarwydd ag ardal benodol. Fodd bynnag, efallai na fydd dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post yn opsiwn addas ym mhob math o ardal, a bydd hyn yn benderfyniad i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar sail amgylchiadau lleol.

[19] Rheoliad 75, RPR 2001.
[20] Rheoliad 84, RPR 2001.
[21] Rheoliad 76, RPR 2001.
[22] Rheoliad 76(2), RPR 2001.
[23] Rheoliad 76(3) a (4), RPR 2001.

5.26 Gallai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sy'n defnyddio eu staff eu hunain ar gyfer dosbarthu ddefnyddio'u system rheoli etholiadol i gynorthwyo gyda didoli'r pecynnau pleidleisio drwy'r post i mewn i gyfeiriadau lleol, y rhai nad ydynt yn lleol a'r rhai nad ydynt yn y DU. Bydd angen dull dosbarthu gwahanol ar bob un ohonynt yn dibynnu ar eu math.

Pecynnau pleidleisio drwy'r post i'w dosbarthu dramor

5.27 Bydd rhai pleidleiswyr drwy'r post fydd yn gofyn i'w pecynnau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon dramor. Bydd hyn yn cynnwys etholwyr dramor, pleidleiswyr gwasanaeth sydd wedi'u lleoli dramor, a hefyd rhai etholwyr sydd fel arfer yn preswylio ym Mhrydain Fawr ond sy'n gofyn i gael anfon eu pecyn pleidleisio drwy'r post i gyfeiriad tramor, er enghraifft oherwydd eu bod ar wyliau ar adeg yr etholiad.

5.28 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod unrhyw becynnau pleidleisio drwy'r post i'w hanfon dramor yn cael eu blaenoriaethu a'u hanfon allan cyn gynted â phosib ar ôl 5pm ar yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn y bleidlais, yn ddelfrydol drwy bost awyr (neu Swyddfa Bost Lluoedd Prydeinig i bleidleiswyr gwasanaeth y lluoedd arfog perthnasol) i ganiatáu digon o amser i'r pecyn pleidleisio drwy'r post gyrraedd yr etholwr ac i'r papur pleidleisio gael ei derbyn yn ôl cyn 10pm ar ddiwrnod y pleidleisio.

5.29 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyd-gysylltu â'r Post Brenhinol am gost uwch postio ar gyfer anfon eitemau dramor i sicrhau bod pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu postio gyda'r gost anfon post allan cywir. Nid oes angen cynnwys cost postio dychwelyd ar yr amlen ddychwelyd os yw'r cyfeiriad a ddarperir gan yr etholwr y tu allan i'r DU.

Lle efallai na fydd yn realistig i becyn pleidleisio drwy'r post gael ei anfon, cyrraedd y pleidleiswr a chael ei ddychwelyd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn i'r bleidlais gau, dylid ystyried a ddylid cynghori'r etholwr i benodi dirprwy yn ei le. Dewis yr etholwr wrth gwrs yw pa ddull pleidleisio sy'n well ganddynt; ond mae'n bwysig cynghori'r etholwr am yr amgylchiadau o gwmpas eu dewis er mwyn iddynt wneud penderfyniad gwybodus.

Dosbarthu lleol

5.30 Os bydd pecynnau pleidleisio drwy'r post sy'n cael eu hanfon i gyfeiriadau lleol yn cael eu dosbarthu gan ddarparwr gwasanaeth hollgynhwysfawr neu gwmni dosbarthu masnachol, bydd angen cost postio eu hanfon. Yn amlwg, os yw staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post, ni fydd angen cost postio anfon allan, er y bydd cost o ran ffioedd ac amser staff. Fodd bynnag, rhaid i gost postio gael ei ragdalu ar yr amlen ddychwelyd 'B'.

Dosbarthu nad yw'r lleol

5.31 Nid yw'n ymarferol i staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddosbarthu pecynnu pleidleisio drwy'r post i gyfeiriadau nad ydynt yn yr ardal leol. Felly bydd angen cynnwys cost postio anfon allan ar yr holl becynnau

pleidleisio drwy'r post nad ydynt yn lleol i'w dosbarthu gan ddarparwr gwasanaeth hollgynhwysfawr neu gwmni dosbarthu masnachol.

Canllawiau arfer da y Post Brenhinol

5.32 Mae'r Post Brenhinol wedi cynhyrchu canllawiau ar bleidleisio drwy'r post, sy'n cwmpasu sefydlu perthynas waith gyda'r staff perthnasol yn y Post Brenhinol. Dylid cyfeirio at y canllawiau hyn gan y rheiny sy'n bwriadu defnyddio'r Post Brenhinol i ddosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post.



Gellir lawrlwytho canllawiau'r Post Brenhinol o www.royalmail.com/postalvoting.

Ail-gyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post

5.33 Yn achlysurol, gall datganiadau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio gael eu camgyfateb mewn pecynnau, gall papurau pleidleisio gynnwys camgymeriadau, neu gall yr wybodaeth ychwanegol a roddir yn y pecyn pleidleisio gynnwys gwall.

5.34 Gall Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gywiro gwallau gweithdrefnol a dylent geisio cywiro unrhyw wallau o'r fath.[24] Er nad oes darpariaeth uniongyrchol i ail-gyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post, cred y Comisiwn y gellir darllen y pŵer hwn i gywiro gwallau gweithdrefnol i gwmpasu'r broses hon. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu ail-gyflwyno rhai neu bob un o'u pecynnau pleidleisio drwy'r post yn dibynnu ar yr amgylchiadau: er enghraifft, os gwnaeth gwall mewn coladu effeithio ar ystod benodol o becynnau, dim ond y pecynnau hynny y gallai fod angen eu hail-gyflwyno.

5.35 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn sicr y bydd unrhyw weithredu yn cywiro'r gwall ac nid yn achosi mwy o ddryswch na gwall gwahanol. Dylent fod yn hyderus eu bod yn gwybod beth aeth o'i le ac y bydd y camau cywirol y maent yn bwriadu ymgymryd â hwy yn foddhaol.

5.36 Pan fydd pleidlais drwy'r post wedi cael ei ail-gyflwyno rhaid canslo'r papur pleidleisio gwreiddiol a ni ddylid caniatáu iddo fynd ymlaen i'r cyfrif.

5.37 Yn achos rhai gwallau, sef pan fydd y papur pleidleisio wedi ei argraffu'n gywir ond bod gwall yn y cyfarwyddiadau ychwanegol ynghylch nifer yr ymgeiswyr i'w dethol, gallai fod yn briodol ail-gyflwyno dim ond i'r rheiny sydd wedi gofyn am becyn pleidleisio drwy'r post newydd ar ôl derbyn cynnig i ail-gyflwyno gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Os gwneir y penderfyniad i ail-gyflwyno i'r holl bleidleiswyr drwy'r post yn yr ardal honno, gallai'r rheiny nad oeddent yn bresennol i dderbyn y pecyn pleidleisio a ailgyflwynwyd gael eu dadryddfreinio mewn gwirionedd er y gallai eu dewis fod yn ddigon clir ar wyneb y papur pleidleisio.

[24] Adran 46, EAA.

5.38 Os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu bod angen ail-gyflwyno a bod y gwall yn un a allai olygu nad oes modd defnyddio'r papur pleidleisio neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried ail-gyflwyno'r pecynnau pleidleisio drwy'r post yn hytrach na chynnig eu hail-gyflwyno yn unig. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys rhoi cyfarwyddyd i'r pleidleiswr ar frig y papur pleidleisio ei hun i farcio'r nifer anghywir o ymgeiswyr, gosod arwyddlun ar gyfer y blaid anghywir yn erbyn ymgeisydd ar y papur pleidleisio neu hepgor ymgeisydd o'r papur pleidleisio.

5.39 Dylai unrhyw gamau a gymerir mewn ymgais i gywiro gwall gweithdrefnol ddigwydd gyda chyngor cyfreithiol a'u cofnodi'n ofalus. Rhaid i'r gwall ac unrhyw gamau cywirol a gymerir gael eu cofnodi rhag ofn y bydd yr etholiad yn cael ei herio.

Cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post yn hwyr

5.40 Mae'r cerdyn pleidleisio a ragnodwyd i bleidleiswyr drwy'r post yn cynnwys dyddiad bras pan fydd y pecynnau pleidleisio yn cael eu hanfon allan. Mae'r geiriad a ddefnyddir yn nodi'n glir nad yw'r dyddiad a roddir yn ddyddiad penodol a warentir ond yn hytrach dyddiad bras y cyflwyniad ydyw, a ddarperir er gwybodaeth i bleidleiswyr drwy'r post.

5.41 Nid oes dyddiad olaf rhagnodedig ar gyfer cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post, fodd bynnag y cynharaf y cânt eu dosbarthu y mwyaf o gyfle bydd gan etholwyr i gwblhau a dychwelyd eu pleidleisiau drwy'r post.

5.42 Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gadw cofnod ysgrifenedig o'u gweithredoedd er mwyn dangos eu bod wedi gwneud pob ymdrech bosib i sicrhau bod y pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u dosbarthu cyn gynted â phosib pe byddai unrhyw gwestiwn yn codi ynghylch cynnal yr etholiad yn gywir.

6 Amnewid pleidleisiau drwy'r post

Amnewid papurau pleidleisio a ddifethwyd

Gall etholwr wneud cais am ddeunydd newydd os ydynt wedi difetha naill ai eu papur pleidleisio neu eu datganiad pleidleisio drwy'r post.

Rhaid gwneud cais am rai newydd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn 5pm ar ddiwrnod y pleidleisio.

6.1 Os yw person yn difetha eu papur pleidleisio drwy'r post neu ddatganiad pleidleisio drwy'r post, mae'n bosib iddynt gael pecyn pleidleisio drwy'r post newydd drwy ddilyn y weithdrefn isod.[25]

6.2 Dylid dychwelyd y papur pleidleisio a ddifethwyd neu ddatganiad pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), ynghyd â'r papur pleidleisio neu ddatganiad pleidleisio drwy'r post sy'n weddill, yr amlen ddychwelyd 'B' a'r amlen papur pleidleisio 'A', waeth bynnag a yw'r rhain wedi cael eu difetha ai peidio. Yna gellir cyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post newydd (papur pleidleisio, datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlenni perthnasol) i'r etholwr.

6.3 Lle gwneir cais cyn 5pm ar y diwrnod cyn y pleidleisio, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) naill ai roi pecyn pleidleisio drwy'r post newydd â llaw i'r etholwr neu drefnu iddo gael ei ddosbarthu iddynt. Fodd bynnag, os yw'r cais am becyn pleidleisio drwy'r post newydd yn cael ei wneud ar ôl 5pm ar y diwrnod cyn diwnrod y pleidleisio, gellir rhoi'r pecyn newydd i'r etholwr â llaw yn unig.

6.4 Rhaid i unrhyw bapurau pleidleisio a datganiadau pleidleisio drwy'r post gael eu canslo, a dylid selio'r dogfennau hyn mewn pecyn ar gyfer papurau pleidleisiau drwy'r post a ddifethwyd. Dylid ychwanegu manylion y papurau pleidleisio a ddifethwyd a ddychwelwyd at y rhestr o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd. Dogfen swyddogol yw hon sy'n cofnodi manylion penodol lle mae papurau newydd wedi cael eu cyflwyno, yn cynnwys i bwy y'u cyflwynwyd.

[25] Rheoliad 77, RPR 2001.

Amnewid papurau pleidleisio a gollwyd

Cyn cyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post yn lle un a gollwyd[26] neu nas derbyniwyd gan y pleidleisiwr, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wirio a yw'r datganiad pleidleisio drwy'r post a gyflwynwyd yn wreiddiol wedi'i farcio fel un a ddychwelwyd ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post neu'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy, fel y bo'n briodol. Os yw'r datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i farcio fel un a ddychwelwyd, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dynnu'r datganiad pleidleisio drwy'r post gwreiddiol o'r llestr ar gyfer datganiadau pleidleisio drwy'r post a'r papur pleidleisio o'r blwch pleidleisiau drwy'r post mewn sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post.[27] Disgrifir hyn ymhellach yn Adran 7, 'Derbyn, agor a storio pleidleisiau drwy'r post', 'Adalw pleidleisiau drwy'r post a ganslwyd', isod.

Cyn selio'r datganiad pleidleisio drwy'r post a adalwyd mewn pecyn (gweler isod), dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddefnyddio'u pwerau i gynnal dilysiad dynodyddion personol ychwanegol[28] a chymharu'r llofnod a'r dyddiad geni ar y datganiad â'r rheiny yng nghofnod y dynodyddion personol. Os ydynt yn sylweddol wahanol, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried hysbysu'r heddlu am y mater yn unol â chanllawiau'r Comisiwn ar atal a chanfod twyll.

6.5 Lle mae pleidleisiwr yn honni ei fod naill ai wedi colli neu heb dderbyn ei bapur pleidleisio drwy'r post, ei ddatganiad pleidleisio drwy'r post neu'r amlenni dychwelyd 'A' a 'B', mae'n bosib cyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post newydd os yw'r pleidleisiwr yn dilyn y weithdrefn isod.

Sylwer bod y disgrifiad 'ar goll' yn cynnwys y sefyllfa lle mae'r pleidleiswr wedi colli ei bapur pleidleisio, ei ddatganiad pleidleisio drwy'r post neu amlenni ar ôl eu derbyn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), yn ogystal â'r sefyllfa lle mae'r pleidleisiwr yn honni nad yw wedi derbyn ei becyn pleidleisio drwy'r post.

Gan y gall pleidleiswyr drwy'r post nawr ofyn, ar unrhyw adeg ar ôl cyflwyno pecynnau pleidleisio drwy'r post a chyn i'r bleidlais gau, am gadarnhad ynghylch a yw eu datganiad pleidleisio drwy'r post wedi cael ei farcio fel un a ddychwelwyd ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post neu'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy (fel y bo'n briodol), gallai etholwyr sy'n gwneud ymholiadau o'r fath ac y'u hysbysir nad yw eu datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i dderbyn wneud cais o bosib am becyn pleidleisio drwy'r post newydd.

Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod cyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post newydd yn yr amgylchiadau hyn yn unig:

[26] Rheoliad 78, RPR 2001.
[27] Rheoliad 86A(2), RPR 2001.
[28] Rheoliad 85B, RPR 2001.

os nad ydynt yn fodlon ynghylch pwy yw'r pleidleiswr (gweler isod)
os oes rheswm ganddynt amau nad yw'r etholwr wedi'i dderbyn neu ei fod wedi colli ei bapur pleidleisio, datganiad pleidleisio drwy'r post neu amlenni

6.6 Gall pleidleisiwr wneud cais am becyn pleidleisio drwy'r post newydd rhwng y pedwerydd diwrnod gwaith cyn diwrnod y pleidleisio yng Nghymru a Lloegr, neu'r trydydd diwrnod gwaith cyn diwrnod y pleidleisio yn yr Alban, a 5pm ar ddiwrnod y pleidleisio. Rhaid i'r cais gynnwys manylion am bwy yw'r pleidleisiwr.[29] Os yw'r papur pleidleisio, y datganiad pleidleisio drwy'r post a/neu amlenni dychwelyd 'A' a 'B' gan y pleidleisiwr o hyd, rhaid iddynt hefyd ddychwelyd pa un bynnag o'r dogfennau pleidleisio drwy'r post hyn sydd ganddynt o hyd.

6.7 Lle y gwneir cais cyn 5pm ar y diwrnod cyn y pleidleisio, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) naill ai roi pecyn pleidleisio drwy'r post i'r etholwr â llaw neu drefnu iddo gael ei ddosbarthu iddynt. Fodd bynnag, os gwneir y cais am un newydd ar ôl 5pm ar y diwrnod cyn diwrnod y pleidleisio, gellir rhoi'r pecyn newydd i'r etholwr â llaw yn unig.

6.8 Mewn achos lle mae etholwr wedi colli unrhyw ran o'i becyn pleidleisio drwy'r post, rhaid iddynt ddychwelyd y rhannau sy'n weddill i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) pan yn gwneud cais am un newydd. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ganslo'r dogfennau hyn a'u gosod mewn paced ar wahân sydd wedi'i selio. Gellir agor y paced hwn yn ddiweddarach ac ychwanegu dogfennau ychwanegol a ganslwyd ato, os bydd angen.

6.9 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) lunio rhestr o bapurau pleidleisio drwy'r post a gollwyd i ddangos manylion lle mae rhai newydd wedi'u cyflwyno.

6.10 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn fodlon ynghylch pwy yw'r pleidleisiwr drwy'r post a heb reswm i amau eu bod naill ai wedi colli neu heb dderbyn y pecyn pleidleisio drwy'r post gwreiddiol. Bydd Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn ffurfio'u barn eu hunain ynghylch yr hyn fydd ei angen arnynt o ran modd adnabod er mwyn bod yn fodlon ynghylch pwy yw'r pleidleiswr. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys rhai ystyriaethau ar argymhellion ynghylch prawf adnabod isod.

Prawf adnabod

6.11 Bydd Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn dymuno cydbwyso'r ymdrech sy'n ofynnol er mwyn bodloni'u hunain ynghylch pwy yw etholwr â gweinyddu'r broses etholiadol yn gywir. Wrth geisio prawf adnabod, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gadw mewn cof nad oes angen prawf adnabod ar gyfer cofrestru etholiadol nac i bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Dylid mabwysiadu ymagwedd gymesur sy'n ceisio defnyddio rhyw fath o brawf adnabod y gellir ei ddilysu'n hawdd gan staff etholiadau ond nad yw'n rhy feichus i'r etholwr.

[29] Rheoliad 78(1), RPR 2001.

6.12 Mae'n arfer cyffredin i bleidleiswyr gysylltu â swyddfa'r etholiad dros y ffôn i holi am becyn pleidleisio drwy'r post newydd os nad yw eu pleidlais drwy'r post wedi cyrraedd. Dyma pryd y dylai staff etholiadau gynghori am y weithdrefn a pha brawf adnabod, os o gwbl, y bydd angen ei ddangos cyn i becyn pleidleisio drwy'r post newydd gael ei gyflwyno.

6.13 Gallai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddymuno cael eu harwain gan yr argymhellion canlynol wrth baratoi gweithdrefn briodol ar gyfer bodloni eu hunain ynghylch pwy yw etholwr sy'n gofyn am becyn pleidleisio drwy'r post newydd.

Argymhelliad 1
6.14 Dylid darparu un modd adnabod sylfaenol er mwyn cyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post newydd. Dylai hyn fod yn ddogfen swyddogol sy'n cynnwys llun o'r etholwr, ynghyd ag enw'r etholwr. Y ddwy enghraifft fwyaf diogel yw:

- pasbort dilys a chyfredol
- trwydded yrru â cherdyn llun

6.15 Gallai dogfennau eraill fod yn dderbyniol fel prawf sylfaenol, cyhyd â bod llun wedi'i selio arnynt. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- trwydded fws leol
- cerdyn myfyriwr wedi'i gyflwyno gan gorff addysg bellach neu uwch cydnabyddedig
- cerdyn adnabod a gyflwynwyd gan gyflogwr lleol cydnabyddedig

6.16 Gallai fod gan rai etholwyr reswm da dros beidio â gallu dangos un o'r moddau adnabod hyn – er enghraifft, y rheiny â thraddodiad diwylliannol sy'n atal delweddau ffotograffig. Yn yr amgylchiadau hyn, argymhellir y dylent ddarparu dwy enghraifft o'r rhestr o brofion adnabod eilaidd.

Argymhelliad 2
6.17 Os bydd unrhyw amheuon gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o hyd am bwy yw etholwr sy'n gofyn am becyn pleidleisio drwy'r post newydd, yna gellir gofyn am ail fodd adnabod. Gellir gofyn am ddau brawf adnabod eilaidd hefyd os na all yr etholwr ddangos prawf sylfaenol.

6.18 Mae profion adnabod eilaidd yn cynnwys:

- trwydded yrru lawn (heb lun)
- llyfr talu treth gyngor neu fil treth gyngor diweddar
- llyfr rhent y cyngor neu landlord cymdeithasol
- derbynebau rhent diweddar neu gytundeb tenantiaeth
- llyfr lwfansau, budd-daliadau neu bensiwn a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau
- llyfr siec, cerdyn siec neu lyfr Cynilon Cenedlaethol
- datganiad banc neu gymdeithas adeiladu diweddar (nid datganiad cerdyn siop)

- bil cyfleustod diweddar (dau fath gwahanol o ddewis – nid bil ffôn symudol)
- P45
- gohebiaeth gan adran y llywodraeth
- cerdyn adnabod a gyflwynwyd gan aelod wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd, dogfen deithio a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref, neu dystysgrif frodori neu gofrestru
- llythyr (datganiad a ardystiwyd) gan berson cyfrifol fel cyfreithiwr, meddyg, gweinidog yr efengyl, ynad, athro, rheolwr hostel, gweithiwr cymdeithasol, nyrs gymunedol, bydwraig neu berson cyfrifol arall, sy'n dweud eu bod yn adnabod yr etholwr a'u bod yn gallu cadarnhau ei enw a'i gyfeiriad - gall rhai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gynnwys landlord neu denant yr etholwr yn y categori hwn, ac o bosib amodi eu bod ar y gofrestr etholiadol
- Cerdyn meddygol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu gerdyn Yswiriant Gwladol
- Tystysgrifau geni, mabwysiadu, priodas, partneriaeth sifil, ysgariad neu ddatganiad statudol (o ddewis dylai'r rhain fod wedi'u cyflwyno fewn chwe mis i'r digwyddiad y maent yn cyfeirio ato ac ni ddylent fod yn rhai sy'n amnewid y gwreiddiol)

6.19 Dylid ystyried y pwyntiau canlynol hefyd:

- Er diogeledd ychwanegol, dylid dangos copïau gwreiddiol, nid llungopïau, o'r prawf adnabod.
- Dylai'r dystiolaeth a ddangosir gan y pleidleiswr dangos cysylltiad clir rhwng yr enw ar y ddogfen adnabod a'r cofnod cyfredol ar y gofrestr etholiadol.
- Nid yw tystysgrifau geni yn brawf adnabod absoliwt ac felly gellir gofyn i'r pleidleiswr ddarparu tystiolaeth ychwanegol er mwyn caniatáu gwirio pwy ydynt.
- Lle darperir biliau cyfleustodau neu ddatganiadau banc, dylent fod yn ddiweddar (wedi'u cyflwyno o fewn y tri mis diwethaf).
- Dylid gwirio cardiau siec, banc neu gredyd yn erbyn llofnod y pleidleiswr.
- Cyn ceisio ardystiad, dylid cynghori'r pleidleiswr y gallai rhai llofnodyddion godi ffi am y gwasanaeth.
- Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddatgan na fydd y prawf adnabod yn cael ei gadw ac y bydd y dogfennau yn cael eu trin yn gyfrinachol.

Papurau pleidleisio a gyflwynwyd

6.20 Gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd i etholwyr a farciwyd fel pleidleiswyr absennol ond sy'n dod i'r orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar ddiwrnod y pleidleisio ac yn honni eu bod wedi colli neu heb dderbyn eu pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi iddynt ateb y cwestiynau a ragnodwyd yn foddhaol.[30]

[30] Rheol 40(1ZD), PER.

6.21 Os, fodd bynnag, y bydd etholwr o'r fath yn cyrraedd gorsaf bleidleisio cyn 5pm ar ddiwrnod y pleidleisio, dylid annog yr etholwr i wneud cais i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am gyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post newydd. Ni ellir cyflwyno papurau pleidleisio a gyflwynwyd i etholwyr o'r fath tan ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais am becynnau pleidleisio drwy'r post fynd heibio.

Mae gwybodaeth fanylach ar y weithdrefn papurau pleidleisio a gyflwynwyd wedi'i chynnwys yn *Llawlyfr staff gorsaf bleidleisio* y Comisiwn, sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

7 Derbyn, agor a storio pleidleisiau drwy'r post

7.1 Mae'r broses hon yn cynnwys y tasgau canlynol:

- cyfrif y pecynnau papurau pleidleisio a ddychwelwyd
- storio pecynnau papurau pleidleisio yn ddiogel tan agoriad swyddogol
- agoriadau rheolaidd o dan graffu ymgeiswyr, asiantau ac arsylwyr
- dilysu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn yr agor yn erbyn y cofnod dynodyddion personol
- cofnodi nifer y papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi'u storio yn y blwch pleidleisio drwy'r post
- selio a storio blychau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel a'u cludo'n ddiogel i'r cyfrif

Derbyn pleidleisiau drwy'r post

7.2 Gellir dychwelyd papur pleidleisio drwy'r post neu ddatganiad pleidleisio drwy'r post ar wahân, drwy'r post neu â llaw i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu drwy law yn unig i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr etholaeth, cyn diwedd y bleidlais.[31]

7.3 Nid oes raid i'r papur pleidleisio drwy'r post a/neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post gael eu dychwelyd yn yr amlen ddychwelyd a gyflwynwyd i'r pleidleisiwr - gall y pleidleisiwr ddefnyddio'i amlen ei hun.

Diogeledd pleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd

7.4 Dylai'r holl bleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), naill ai yn ei swyddfa neu mewn gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y pleidleisio gael eu storio'n ddiogel mewn llestri priodol. Dylid cael trywydd archwilio ysgrifenedig clir ar gyfer yr holl bleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd yn ôl.

7.5 Dylid storio pecynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post, wedi'i farcio gyda'r geiriau 'blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post' ac enw'r etholaeth.[32] Dylai fod modd selio'r holl flychau pleidleiswyr drwy'r post i sicrhau diogeledd y cynnwys, a dylid eu storio mewn lle diogel tan yr agoriad nesaf a amserlennwyd o bleidleisiau drwy'r post.

7.6 Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gymryd rhagofalon i gludo pleidleisiau drwy'r post yn ddiogel i'r lleoliadau agor a chyfrif, yn enwedig os nad yw'r rhain yn yr un adeilad â swyddfa'r etholiad. Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddynodi swyddog i sicrhau y cymerir yr holl bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn i'r bleidlais gau yn ddiogel i'r cyfrif.

[31] Rheol 45(1B), PER; Rheoliad 79, RPR 2001.
[32] Rheoliad 81(1) a (2), RPR 2001.

7.7 Rhaid i bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i orsafoedd pleidleisio gael eu storio'n ddiogel ac allan o gyrraedd y rheiny â'r hawl i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio. Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) bwysleisio i Swyddogion Llywyddu bwysigrwydd cynnal diogeledd y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd, fel y maent yn ei wneud mewn perthynas â'r blwch pleidleisio a dogfennau eraill yr etholiad.

Pleidleisiau drwy'r post a ddosbarthwyd i'r orsaf bleidleisio

Mae'n bwysig lleihau i'r isafswm isaf posib nifer y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd nad ydynt eto wedi'u hagor pan fydd y bleidlais yn cau. Mae hyn yn golygu sicrhau eu bod yn cael eu casglu o orsafoedd pleidleisio drwy gydol y dydd a bod gallu priodol i'w hagor cyn ac ar ôl cau'r bleidlais i ymdrin â'r rheiny a ddosbarthir yn union cyn i'r bleidlais gau.

7.8 Mewn gorsafoedd pleidleisio dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu pacedi wedi'u labelu'n glir fel rhai sy'n cynnwys pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd â llaw i'r orsaf bleidleisio, wedi'u marcio â rhif yr orsaf bleidleisio.

7.9 Sicrhewch fod maint y pacedi yn ddigonol i dderbyn nifer fawr o bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd rhag ofn y derbynnir mwy yn y modd hwn nag yn y gorffennol. Waeth bynnag yw maint a natur y paced, rhaid gallu ei selio a'i ddiogelu'n gywir cyn ei symud o'r orsaf bleidleisio.[33]

7.10 Dylid rhoi mwy nag un paced i'r Swyddog Llywyddu, ac yna pan fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu berson a awdurdodwyd ganddynt, yn casglu pleidleisiau drwy'r post o'r orsaf bleidleisio yn ystod diwrnod y pleidleisio, gellir trosglwyddo'r pleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd eisoes mewn un paced tra bod y Swyddog Llywyddu yn cadw paced arall ar gyfer unrhyw bleidleisiau drwy'r post eraill a rhoddir i mewn yn yr orsaf bleidleisio cyn i'r bleidlais gau.

Selio'r pacedi
Rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio'r pleidleisiau drwy'r post i mewn i baced.[34]

Gall unrhyw ymgeisydd, asiant neu asiant pleidleisio sy'n bresennol pan fydd pleidleisiau yn cael eu casglu ychwanegu eu sêl eu hunain i'r paced ar ôl i staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gysylltu eu sêl hwy. Dylid dangos y sêl i unrhyw ymgeiswyr ac asiantau sy'n bresennol yn ystod agor y pleidleisiau drwy'r post cyn iddi gael ei thorri.

7.11 Fel mesur diogeledd ychwanegol, y byddai hefyd yn cynorthwyo yn y cyfrif, dylai Swyddogion Llywyddu gofnodi nifer yr amlenni pleidleisiau drwy'r post a rhoddir i mewn yn yr orsaf bleidleisio. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu ffurflen addas y gellir ei chynnwys a'i selio yn y pecyn

[33] Rheoliad 79(3)–(5), RPR 2001.
[34] Rheoliad 79(5), RPR 2001.

pan gaiff ei gasglu gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu ei ddosbarthu iddynt pan fydd y bleidlais yn cau. Fel mesur diogeledd pellach, gellid gofyn hefyd i Swyddogion Llywyddu gadw cofnod o nifer yr amlenni a rhoddwyd ym mhob paced a ddychwelwyd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), er mwyn cadarnhau na ymyrrwyd â'r paced ac nad yw nifer yr amlenni oddi mewn iddo wedi newid.

7.12 Dylid cofnodi derbyn yr holl bacedi sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post wrth iddynt gyrraedd yng nghanolfan y cyfrif lle y byddant yn cael eu hagor ar ôl i'r bleidlais gau.

Am fwy o wybodaeth ar weithdrefnau gorsaf bleidleisio, gweler *Llawlyfr staff gorsaf bleidleisio* y Comisiwn, sydd ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Am fwy o wybodaeth ar weithdrefnau yn y dilysu a'r cyfrif, gweler Rhan D, 'Dilysu a chyfrif', Adran 3, 'Y prosesau dilysu a chyfrif'.

Gellir gweld canllawiau pellach ar gynllunio ar gyfer agor pleidleisiau drwy'r post yn Adran 14, 'Pleidleisio drwy'r post' *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU,* sydd ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Cofnodi a darparu tystiolaeth o weithredu

Mae cofnodi derbyn a symud pleidleisiau drwy'r post yn hollbwysig. Mae'n syniad da cael atodlen yn cofnodi cyfansymiau'r pleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd yn swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'u gosod mewn blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post, a symud y blychau hyn yn ddiweddarach i leoliadau agor a chyfrif. Gallai Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddymuno cynnwys yn y cofnod hwn a ddosbarthwyd yr amlenni dychwelyd â llaw gan bleidleiswyr, ac i ba leoliad, neu a'u derbyniwyd gan y Post Brenhinol. Sicrhewch fod yna drywydd archwilio clir.

7.13 Gallai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddymuno darparu ffurflen i Swyddogion Llywyddu er mwyn cofnodi manylion etholwyr sy'n mynychu gorsaf bleidleisio ac y'u marciwyd fel pleidleiswyr absennol ond sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post neu thrwy ddirprwy. Dylai cofnodi enw, cyfeiriad a rhif etholwr etholwyr o'r fath alluogi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ysgrifennu at y bobl hynny ar ôl yr etholiad a gallai hefyd ddarparu tystiolaeth hollbwysig mewn unrhyw archwiliad gan yr heddlu.

Mae log enghreifftiol ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Cwmpesir gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn fanwl yn *Llawlyfr staff gorsaf bleidleisio* y Comisiwn.

Y broses agor

Mae etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn cynnig heriau i'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) hynny y mae eu hetholaeth yn croesi ffin rhwng dau awdurdod lleol. Gellir gweld mwy o fanylion am y ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio'r broses agor yn Adran 5, 'Pa faterion sy'n benodol i'r etholiad hwn?' yn *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU*.

7.14 Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried amlder ac amseru sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post.

7.15 Yn ogystal â phennu beth fydd yn angenrheidiol er mwyn cynnal y dilysu dynodyddion personol yn effeithlon ac yn effeithiol, dylid ystyried y gofyniad i allu ymateb i etholwyr sy'n gofyn am gadarnhad ynghylch a yw eu datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i dderbyn yn ôl hefyd, a dylid sefydlu system briodol i ymateb i unrhyw ymholiadau o'r fath.

Personau sy'n bresennol yn ystod sesiynau agor

7.16 Mae hawl gan ymgeiswyr, asiantau etholiad, asiantau a benodwyd yn benodol at ddiben arsylwi agor pleidleisiau drwy'r post, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn fod yn bresennol yn ystod sesiynau agor.[35] Rhaid agor y blychau pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post ym mhresenoldeb unrhyw bersonau o'r fath sy'n bresennol yn y sesiwn agor.[36]

7.17 Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn sicrhau hyder yn y broses. Dylai'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod yr ymgeiswyr a'r asiantau sy'n bresennol yn ymwybodol o'r tasgau yr ymgymerir â hwy yn ystod yr agor a bod cyfle ganddynt graffu'r gweithgareddau yr ymgymerir â hwy.

Hysbysu amser yr agor

7.18 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi 48 awr o leiaf o rybudd ysgrifenedig ar gyfer pob sesiwn agor i bob ymgeisydd; dylai hyn bennu amser a lle yr agor, a nifer yr asiantau y gall ymgeisydd eu penodi i fod yn bresennol ym mhob sesiwn agor.[37] Dylid hysbysu asiant pob ymgeisydd hefyd am amser a lleoliad y sesiynau agor.

[35] Rheoliad 68, RPR 2001.
[36] Rheoliad 83(1), RPR 2001.
[37] Rheoliad 80, RPR 2001.

Hysbysu'r angen am gyfrinachedd

7.19 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod pob person sy'n bresennol mewn agor pleidleisiau drwy'r post yn derbyn copi o'r gofynion cyfrinachedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 66(4) a (6) yr RPA 1983.[38]



Mae copi o'r gofynion cyfrinachedd i'w gael yn yr Atodiad.

Blychau a phacedi pleidleisio drwy'r post

7.20 Mae angen dau fath o flwch pleidleisio: y blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post a'r blwch pleidleisio drwy'r post. Mae angen pacedi y gellir eu selio ar gyfer pob gorsaf bleidleisio ar gyfer pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd at y Swyddog Llywyddu.

7.21 Defnyddir y **blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post** ar gyfer cadw unrhyw bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd. Dylid gosod unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post a datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddosbarthir ar wahân yn y blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post hefyd.

7.22 Lle mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gyfrifol am ddwy neu fwy o etholaethau, dylid didoli'r pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd yn ôl etholaeth cyn cael eu gosod yn y blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post priodol ar gyfer yr etholaeth benodol honno.

7.23 Dylid cadw cofnod o gyfanswm nifer yr amlenni a dderbynnir yn ddyddiol: yna dylid defnyddio hwn at ddibenion archwilio a'i wirio yn erbyn yr agor pan gaiff nifer yr amlenni eu cyfrif yn swyddogol. Gellid defnyddio'r cofnod hwn hefyd i arwain trefnu sesiynau agor.

7.24 Dylid cynhyrchu pacedi ar gyfer pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i orsafoedd pleidleisio yn cynnwys dynodydd gorsaf bleidleisio ac y gellir eu selio'n ddiogel. Dylid darparu dau o leiaf, i ganiatáu casglu yn ystod diwrnod y pleidleisio a'r dosbarthiad olaf gan y Swyddog Llywyddu i leoliad y cyfrif ar ddiwedd y bleidlais. Dylid cadw cofnodion am y holl bacedi o'r fath er mwyn gallu rhoi cyfrif am bob un cyn diwedd y sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post olaf.

7.25 Dylid darparu **blychau pleidleisio drwy'r post**, gyda phob un wedi'i farcio gyda'r geiriau 'blwch pleidleisio drwy'r post' ac enw'r etholaeth, ym mhob sesiwn agor y blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post. Defnyddir y blychau pleidleisio drwy'r post i storio'r papurau pleidleisio fydd yn mynd ymlaen i'r cyfrif o bob sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post.

7.26 Dylai'r **holl** flychau a phacedi pleidleisio drwy'r post gael eu selio a'u storio'n ddiogel tan y cyfrif. Mae'n bwysig rhoi cyfrif am bob blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post, blwch pleisleisio drwy'r post a phacedi ar gyfer

[38] Rheoliad 70, RPR 2001.

pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i orsafoedd pleidleisio yn ystod yr etholiad fel y gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod yr holl bleidleisiau drwy'r post yn cael eu hagor a bod pleidleisiau dilys yn cyrraedd y cyfrif.

7.27 Dylid gwneud trywydd archwilio clir, yn cynnwys nodyn ysgrifenedig o'r holl flychau a'r pacedi o'r fath a gyflwynwyd. Dylid diwygio hyn pan gaiff y cynnwys eu prosesu ar bob cam.

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn siwr ei fod yn rhoi cyfrif am yr holl eitemau hyn cyn cwblhau dilysu'r papurau pleidleisio yn y cyfrif.

Gan mai'r blychau pleidleisio drwy'r post yw'r blychau cyntaf i'w hagor a'u dilysu, mae'n arbennig o bwysig bod y rhif ar y cyfrif papurau pleidleisio yn gywir, gan y bydd set o flychau pleidleisio drwy'r post a ddilyswyd yn gywir yn creu hyder ar ddechrau'r broses ddilysu a chyfrif.

Agor y blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post

7.28 Pan agorir y blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post, y cam cyntaf yw i staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyfrif a chofnodi nifer yr amlenni dychwelyd.[39] Yna mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) osod isafswm o 20% o'r amlenni ym mhob blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post o'r neilltu ar gyfer dilysu dynodyddion personol.[40] Bydd angen i gyfanswm y niferoedd a dderbyniwyd a rhoddwyd ymlaen ar gyfer dilysu dynodyddion personol gael ei gofnodi ar gyfer y datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post - Ffurflen K - a gwblheir ar ddiwedd yr etholiad.

Cred y Comisiwn yn gryf y dylid dilysu 100% o'r dynodyddion personol. Mae dilysu 100% nid yn unig yn golygu y bydd pob pleidlais drwy'r post wedi cael ei dilysu er mwyn lleiafu'r risg o dwyll, mae hefyd yn esgor ar drin pob pleidlais drwy'r post yn gyfartal, ac ar un broses weinyddol ar gyfer yr holl bleidleisiau drwy'r post yn hytrach na dwy broses ar wahân yn cael eu gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd.

Os bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu dilysu llai na 100% o'r datganiadau pleidleisio drwy'r post ym mhob sesiwn agor, mae'n bwysig bod y rheiny a osodir o'r neilltu ar gyfer dilysu dynodyddion personol yn cael eu cadw ar wahân i'r rheiny na fyddant yn destun y gwiriad manylach. Mae angen rhoi cyfrif annibynnol am ddatganiadau pleidleisio drwy'r post fydd yn destun dilysu dynodyddion personol a'u selio mewn pecynnau ar wahân i'r rheiny na fydd yn destun dilysu dynodyddion personol. Fodd bynnag, mae'r un broses agor sylfaenol yn gymwys i'r holl bleidleisiau drwy'r post.

[39] Rheoliad 84(1), RPR 2001.
[40] Rheoliad 84(1A), RPR 2001.

Mae angen i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynhyrchu copi wedi'i farcio o'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post yn dangos pob datganiad pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd (p'un ai y cafodd ei ddilysu ai peidio). Rhaid i'r wybodaeth o'r copi hwn a farciwyd fod ar gael i gadarnhau derbyn datganiad pleidleisio drwy'r post pleidleiswr ar gais gan bleidleisiwr drwy'r post. Gallai dilysu 100% yn defnyddio system wedi'i awtomeiddio helpu i symleiddio'r dasg hon.

Gallai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddewis gwirio mwy nag 20% ond llai na 100% o'r datganiadau pleidleisio drwy'r post ar y cam hwn. Lle y bydd llai na 100% o ddatganiadau pleidleisio drwy'r post yn cael eu dilysu mewn unrhyw sesiwn agor pleidleisio drwy'r post, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) egluro i ymgeiswyr ac asiantau, yn ogystal ag i unrhyw gynrychiolwyr y Comisiwn neu arsylwyr achrededig sy'n bresennol, beth yw'r sampl a ddetholwyd a sut y penderfynwyd ar y sampl hwnnw.

Lle mae Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi gwneud y penderfyniad i wirio'r isafswm o 20%, neu sampl rhwng 20% a 100%, y datganiadau pleidleisio drwy'r post ym mhob sesiwn agor, mae'r rheoliadau yn darparu pŵer i fynd yn ôl a gwirio'r dynodyddion ar unrhyw rai neu bob un o'r datganiadau pleidleisio drwy'r post o sesiynau agor blaenorol nad oeddent yn wreiddiol yn destun dilysu dynodyddion.[41] Dylid ymarfer y pŵer hwn ar ddisgresiwn y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), ac yn rhesymol ac yn gyson. Gallai hyn fod yn gymhleth o safbwynt gweinyddol, gan y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) adalw unrhyw bapurau pleidleisio y barnwyd eu bod yn annilys o ganlyniad i'r dilysu ychwanegol. Eto, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) egluro i ymgeiswyr ac asiantau, yn ogystal ag i unrhyw gynrychiolwyr y Comisiwn neu arsylwyr achrededig sy'n bresennol, pam mae maint y sampl wedi'i gynyddu.

7.29 Dylid agor pob amlen ddychwelyd. Ar adegau, ni fydd holl rannau'r bleidlais drwy'r post wedi'u dychwelyd neu eu gosod yn yr amlen gywir:

- Os yw'r amlen ddychwelyd yn cynnwys datganiad pleidleisio drwy'r post a naill ai amlen papur pleidleisio neu bapur pleidleisio heb yr amlen, dylid ymdrin â'r datganiad pleidleisio drwy'r post fel y nodir yn 'Gwirio'r datganiadau pleidleisio drwy'r post a dilysu dynodyddion personol', o baragraff 7.40 ymlaen, er mwyn gwirio a yw'n ddilys. Dylai derbyn y datganiad pleidleisio drwy'r post gael ei farcio ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post (neu'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy yn ôl yr amgylchiadau).
- Os nad yw datganiad pleidleisio drwy'r post yn weladwy, ond bod yna amlen papur pleidleisio, dylid agor yr amlen i weld a yw'r datganiad pleidleisio drwy'r post y tu mewn iddi ai peidio. Os ydy, gellir ei drin unwaith eto fel y nodir yn 'Gwirio'r datganiadau pleidleisio drwy'r post a dilysu dynodyddion personol', o baragraff 7.40 ymlaen.
- Os yw'r amlen ddychwelyd yn cynnwys datganiad pleidleisio drwy'r post ond nid amlen papur pleidleisio na phapur pleidleisio, dylid marcio

[41] Rheoliad 85B, RPR 2001.

derbyn y datganiad pleidleisio drwy'r post o hyd ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post (neu'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy yn ôl yr amgylchiadau). Yna dylai'r cynnwys gael eu dychwelyd i'r amlen, y dylid ei marcio gyda 'gwrthodwyd dros dro' a'i gosod yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd (sylwer nad oes llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd dros dro).

- Os yw'r amlen ddychwelyd yn cynnwys papur pleidleisio ond nid datganiad pleidleisio drwy'r post, dylid rhoi'r cynnwys yn ôl yn yr amlen, y dylid ei marcio gyda 'gwrthodwyd dros dro' a'i gosod yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd.
- Ar ôl pob sesiwn agor argymhellir y dylid ymgymryd â chyfateb y datganiadau pleidleisio drwy'r post heb amlen papur pleidleisio a dderbyniwyd ac amlenni papurau pleidleisio a dderbyniwyd heb ddatganiad pleidleisio drwy'r post er mwyn lleihau'r baich ar y sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post olaf.

Agor a dilysu pleidleisiau drwy'r post a ddosbarthwyd i orsafoedd pleidleisio

7.30 Rhaid i bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ystod diwrnod y pleidleisio a'r rheiny a ddychwelwyd i orsafoedd pleidleisio a'u casglu gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ystod diwrnod y pleidleisio gael eu hagor a phrosesu eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn yr un ffordd â'r rheiny a ddychwelwyd drwy'r post. Rhaid i isafswm o 20% o bob blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post gael eu rhoi o'r neilltu ar gyfer dilysu dynodyddion personol ym mhob sesiwn agor.

7.31 Rhaid i bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i orsafoedd pleidleisio na chawsant eu casglu yn ystod diwrnod y pleidleisio gael eu dosbarthu i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gan Swyddogion Llywyddu ar ôl i'r bleidlais gau. Dylid dyrannu adnoddau digonol ar gyfer agor pleidleisiau drwy'r post ar ôl i'r bleidlais gau, er mwyn lleiafu unrhyw oedi mewn perthynas â'r cyfrif. Eto, rhaid ymdrin â'r rhain yn yr un modd â'r rheiny a ddychwelwyd drwy'r post, a rhaid i isafswm o 20% o bob blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post gael eu rhoi o'r neilltu ar gyfer dilysu dynodyddion personol ym mhob sesiwn agor.

7.32 Mae rhai pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth reoli'r broses hon fel a ganlyn:

- Dylid trosglwyddo'r pacedi yn cynnwys pleidleisiau drwy'r post o orsafoedd pleidleisio ar wahân i bacedi eraill yn y dderbynfa blychau pleidleisio. Bydd hyn yn galluogi anfon y pleidleisiau drwy'r post yn syth i gael eu hagor ac yn osgoi'r angen i chwilio amdanynt.
- Dylai fod gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drywydd archwilio er mwyn sicrhau bod modd rhoi cyfrif am yr holl bacedi ar gyfer pecynnau pleidleisio drwy'r post.

- Cael tîm dynodedig yn cynnwys goruchwyliwr profiadol a staff i agor pleidleisiau drwy'r post ar ôl i'r bleidlais gau. Dylai'r staff hyn fod yn brofiadol yn y broses agor.
- Sicrhewch fod staff wrth gefn ar gael i symud ymlaen i agor pleidleisiau drwy'r post os yw'r nifer yn dod i mewn i'r cyfrif o orsafoedd pleidleisio yn uwch na'r disgwyl.
- Cwblhewch y broses gyfateb yn barhaus drwy gydol yr etholiad, fel mai dim ond yr eitemau a wrthodwyd dros dro o'r pleidleisiau drwy'r post olaf ac o unrhyw sesiynau agor blaenorol nad oes modd wedi bod eu cyfateb hyd yma y mae angen eu cyfateb ar ôl i'r bleidlais gau.

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi o'r neilltu isafswm o 20% o'r amlenni a dderbyniwyd ar ddiwedd y bleidlais o'r gorsafoedd pleidleisio ar gyfer gwirio dynodyddion personol, ac ymgymryd â gwirio'r llofnod a'r dyddiad geni yn erbyn y cofnod dynodyddion personol. Bydd angen ystyried sut bydd y gwiriadau hyn yn cael eu hymgymryd yn dilyn cau'r bleidlais, yn enwedig os bydd cyfrif y pleidleisiau yn dechrau yn syth wedi 10pm.

Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wirio'r un gyfran o bleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd o orsafoedd pleidleisio â'r rheiny a dderbyniwyd drwy'r post, i osgoi trin y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd drwy un dull yn wahanol i'r rheiny a ddychwelwyd drwy ddull arall.

Cadarnhau derbyn datganiadau pleidleisio drwy'r post

Marcio'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy

7.33 Mae gofyniad i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynhyrchu rhestr pleidleiswyr drwy'r post,[42] a gynhyrchir drwy farcio'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy ar ddychwelyd pob datganiad pleidleisio drwy'r post.[43]

7.34 Pan fydd datganiad pleidleisio drwy'r post yn cael ei ddychwelyd, waeth bynnag a oes papur pleidleisio gydag ef ai peidio, mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) osod marc ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post, neu, fel y bo'n briodol, ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post i gadarnhau ei fod wedi'i dderbyn yn ôl.

7.35 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddefnyddio'r rhestr hon i gadarnhau, ar gais gan bleidleisiwr drwy'r post, a yw ei bleidlais drwy'r post wedi'i farcio fel un a dderbyniwyd yn ôl gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) .[44]

[42] Rheoliad 84(7), RPR 2001; Rheoliad 84(6), RPR (yr Alban) 2001.
[43] Rheoliad 84(6), RPR 2001.
[44] Rheoliad 84A, RPR 2001.

Bydd dilysu wedi'i awtomeiddio o 100% o'r dynodyddion personol pleidleisiau drwy'r post yn darparu cyfle i awtomeiddio creu rhestr pleidleiswyr drwy'r post a farciwyd ac un y gellir ei defnyddio i gadarnhau derbyn datganiad pleidleisio drwy'r post.

7.36 Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gadarnhau a yw rhif y papur pleidleisio a gyflwynwyd i'r etholwr neu ei ddirprwy (drwy'r post) wedi'i gofnodi ar unrhyw un o'r ddwy restr y mae'n ofynnol eu cadw a'u defnyddio i gyfateb dogfennau lle mae naill ai'r datganiad pleidleisio drwy'r post neu'r papur pleidleisio wedi cael ei dderbyn heb y llall.

7.37 Lle y derbynnir cais am gadarnhad o'r fath, mae'n ofynnol ar Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i fodloni'u hunain bod y cais wedi'i wneud gan yr etholwr neu ei ddirprwy cyn darparu'r wybodaeth. Nid yw'r rheoliad yn nodi sut y dylai ceisiadau gael eu gwneud neu eu derbyn, a gallai nifer o geisiadau gael eu gwneud dros y ffôn i ddechrau. Gorchwyl y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fydd pennu sut mae wedi'i fodloni mewn unrhyw achos penodol.

Gwirio'r datganiadau pleidleisio drwy'r post a dilysu dynodyddion personol

Mae hawl gan ymgeiswyr, asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig oruchwylio pob agwedd ar y broses agor, yn cynnwys gwirio datganiadau pleidleisio drwy'r post am ddilysrwydd a dilysu dynodyddion personol. Lle y defnyddir systemau electronig, dylid nodi nad oes gan y rheiny sy'n bresennol, yn cynnwys arsylwyr, yr hawl i weithredu neu brofi unrhyw sganwyr neu feddalwedd sy'n cael eu defnyddio.

Gwirio'r datganiadau pleidleisio drwy'r post

7.38 Rhaid gwirio pob datganiad pleidleisio drwy'r post er dilysrwydd. Dylai fod arno:[45]

- lofnod yn y gofod a ddarperir i'r pleidleisiwr lofnodi, a
- dyddiad geni'r pleidleisiwr

7.39 Dylid nodi yn achos etholwyr y rhoddwyd hepgoriad iddynt, ni fydd y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cynnwys yr adran yn gofyn am lofnod a'r blwch llofnodi. Dylid rhoi cyfarwyddiadau clir i staff agor pleidleisiau drwy'r post ar y broses i'w dilyn pan fyddant yn dod o hyd i ddatganiad o'r fath, a dylid dweud wrthynt mewn achos o'r fath dylent edrych am ddyddiad geni yn unig.

7.40 At hynny, yn achos datganiadau pleidleisio drwy'r post a roddwyd o'r neilltu ar gyfer dilysu dynodyddion personol, rhaid cymharu'r llofnod a'r

[45] Rheoliadau 84, 85 a 85A, RPR 2001.

dyddiad geni yn erbyn y rheiny a ddelir ar y cofnod dynodyddion personol. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), fel rhan o'i ofyniad i wirio bod y datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau'n gywir:

- cydberthyn rhif y papur pleidleisio a ddangosir ar y datganiad pleidleisio drwy'r post â rhif y papur pleidleisio ar y rhestr rhifau cyfatebol, er mwyn gallu pennu i bwy y cyfeiriwyd y papur pleidleisio drwy'r post
- cymharu'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post gyda hwnnw ar y cofnod dynodyddion personol sy'n ymwneud â'r person y cyfeiriwyd y papur pleidleisio drwy'r post ato
- cymharu'r dyddiad geni ar y datganiad pleidleisio drwy'r post â hwnnw ar y cofnod dynodyddion personol sy'n ymwneud â'r person y cyfeiriwyd y papur pleidleisio drwy'r post ato

7.41 Dylid nodi y bydd y lefel hon o wirio yn golygu y bydd angen i bob etholwr gwblhau ei ddatganiad ei hun: nid oes darpariaeth yn caniatáu cyfateb datganiad a gwblhawyd â dynodyddion a ddarparwyd ag eraill yn yr un aelwyd.

Mae'n hollbwysig bod y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn cynnwys enw'r etholwr ar y datganiad pleidleisio drwy'r post fel y rhagnodwyd, ac eithrio yn achos etholwyr dienw, er mwyn lleiafu'r potensial i aelodau teuluoedd gwblhau datganiadau pleidleisio drwy'r post ei gilydd mewn camgymeriad.

7.42 Lle bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn pennu bod datganiad pleidleisio drwy'r post yn annilys:

- naill ai oherwydd bod llofnod neu ddyddiad geni ar goll
- neu, yn achos y rheiny a roddwyd o'r neilltu ar gyfer dilysu dynodyddion personol, oherwydd nad yw'r llofnod a/neu'r dyddiad geni a roddwyd ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i hwnnw ar y cofnod dynodyddion personol,

dylai'r datganiad pleidleisio drwy'r post gael ei gysylltu â'r amlen papur pleidleisio berthnasol (neu â'r papur pleisleisio os nad yw wedi'i ddychwelyd yn yr amlen papur pleidleisio), ei arnodi gyda 'gwrthodwyd', ei ddangos i unrhyw asiantau sy'n bresennol ac yna ei roi yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd. Mae hawl gan yr asiantau sy'n bresennol weld y cofnodion yn y cofnod dynodyddion personol hefyd. Os bydd unrhyw asiant yn gwrthwynebu'r penderfyniad i wrthod, dylid ychwanegu'r geiriau 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad'.

7.43 Os yw'r datganiad pleidleisio drwy'r post yn ddilys a bod amlen papur pleidleisio gydag ef, dylid cymharu'r rhif ar y datganiad â'r rhif ar yr amlen papur pleidleisio. Os byddant yn cyfateb, dylid gosod y ddau yn y llestr priodol (hynny yw, y rheiny ar gyfer datganiadau pleidleisio drwy'r post ac amlenni papurau pleidleisio). Os nad ydynt yn cyfateb, dylid agor yr amlen papur pleidleisio a thynnu unrhyw bapur pleidleisio sydd y tu mewn iddi, a dylid ymdrin ag ef fel a ganlyn:

- Os yw'r datganiad pleidleisio drwy'r post yn ddilys, dylid cymharu'r rhif ar y datganiad â'r rhif ar y papur pleidleisio:
  - Os ydynt yn cyfateb, dylid eu gosod, yn ôl eu trefn, yn y llestr ar gyfer datganiadau pleidleisio drwy'r post a'r blwch pleidleisio drwy'r post.
  - Os nad ydynt yn cyfateb, dylid cysylltu'r papur pleidleisio â'r datganiad pleidleisio drwy'r post a dylid marcio'r datganiad gyda 'gwrthodwyd dros dro' a'i osod yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd.

7.44 Os yw amlen ddychwelyd yn cynnwys datganiad pleidleisio drwy'r post ond nid papur pleidleisio neu amlen papur pleidleisio cysylltiedig, rhaid marcio'r datganiad pleidleisio drwy'r post gyda 'gwrthodwyd dros dro' a'i osod yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd.

Lle y caiff pleidlais drwy'r post ei wrthod oherwydd nid yw'r dynodyddion personol ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rheiny a ddelir yn y cofnod dynodyddion personol, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried cyfeirio'r mater at yr heddlu.

Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drafod y broses i'w dilyn gyda'r heddlu ymlaen llaw. Bydd hyn yn helpu nodi pa weithdrefnau y dylai fod gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn eu lle ar gyfer nodi gweithgarwch amheus a phryd i gyfeirio'r mater at yr heddlu.

Mae tystiolaeth o gyd-gysylltu â'r heddlu am hyn yn ogystal â materion priodol eraill yn ofynnol er mwyn cwrdd â safon perfformiad 4 – Cynnal hygrededd etholiad.

Dilysu dynodyddion personol

7.45 Wrth bennu dilysrwydd datganiadau pleidleisio drwy'r post, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) 'fodloni ei hun bod y datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau yn gywir ac fel rhan o'r broses honno mae'n rhaid iddo gymharu'r dyddiad geni a'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn erbyn y dyddiad geni a'r llofnod yn y cofnod dynodyddion personol'.[46]

7.46 Nid yw'r llofnod na'r dyddiad geni yn bwysicach na'i gilydd wrth benderfynu a yw datganiad pleidleisio drwy'r post wedi cael ei gwblhau'n gywir – rhaid darparu'r ddau a rhaid i'r ddau gyfateb.[47] Nid yw unrhyw un o'r dynodyddion yn cymryd blaenoriaeth dros y llall.

7.47 Os yw'r dyddiad presennol yn cael ei roi ar y datganiad, mae'n amlwg nad dyddiad geni'r etholwr ydyw ac ni ddylid pennu bod y datganiad wedi'i gwblhau'n gywir oherwydd nid yw'n cyfateb. Yn yr un modd, os yw'n ymddangos bod y dyddiad geni anghywir wedi'i nodi ar y cofnod o'r cam ymgeisio, er enghraifft mae dyddiad llofnodi'r cais wedi'i nodi yn hytrach na'r

[46] Rheoliad 85A(2), RPR 2001.
[47] Rheoliad 85A(2), RPR 2001.

dyddiad geni, ni fydd hyn yn cyfateb i'r dyddiad geni a roddwyd ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a rhaid gwrthod y datganiad.

7.48 Mae'n bosib y gallai'r etholwr gwblhau'r maes dyddiad geni mewn ffordd wahanol i'r fformat y gofynnir amdano gan y datganiad pleidleisio drwy'r post. Mewn achos o'r fath, os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon bod dyddiad geni'r etholwr wedi cael ei roi, a'i fod yn cyfateb i hynny a ddarparwyd adeg yr ymgeisio, gallai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) allu bodloni'u hunain bod y datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau'n gywir. Dylid gwneud pob penderfyniad ar ddatganiad pleidleisio drwy'r post yn ôl ei rinwedd ei hun ac ar sail unigol.

Mae arbenigwyr gwyddor fforensig o'r Gwasanaeth Gwyddor Fforensig, ynghyd â staff y Comisiwn eu hunain, wedi datblygu canllawiau ynghylch gwirio llofnodion â llaw. Cefnogir y canllawiau hyn gan Wasanaethau Fforensig Awdurdod Gwasanaethau'r Heddlu yr Alban. Mae'r canllawiau yn darparu peth cefndir i'r ffordd y gall etholwyr ysgrifennu llofnodion ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post. Darparwyd y canllawiau hyn yn wreiddiol yng Nghylchlythyr EC21(2007) ac fe'u dyblygwyd yn yr Atodiad, 'Adnoddau'.

7.49 Os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon bod datganiad wedi'i gwblhau'n gywir yna gellir ei dderbyn. Mae'n amlwg nad oes raid i lofnodion fod yn union yr un fath ond bod angen iddynt 'fodloni' y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn unig.

7.50 Nid yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'i gyfyngu o reidrwydd i wneud ei benderfyniad ar y ddau lofnod a dau ddyddiad geni. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu barnu'r llofnod a'r dyddiad geni fel 'rhan' o'r penderfyniad, ond mae'r defnydd o'r gair 'rhan' yn golygu y gellir defnyddio ffynonellau eraill hefyd. Byddai'n dderbyniol i Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ganddynt wrth wneud eu penderfyniad, er mae'n rhaid i ddiffyg llofnod yn llwyr (lle na roddwyd hepgoriad i'r etholwr yn flaenorol) neu ddyddiad geni ym mhob achos, arwain at ddatganiad anfoddhaol a gwrthodiad.

7.51 Mae'r canllawiau hyn yn arbennig o berthnasol yn achos etholwr sydd efallai wedi dod yn analluog ers cyflwyno eu dynodyddion i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, er enghraifft lle mae etholwr wedi torri ei fraich ac nad yw'n gallu dyblygu ei lofnod arferol.

7.52 Eto, dylid gwneud unrhyw benderfyniad i wrthod datganiad pleidleisio drwy'r post ar sail ei rinweddau ac ar sail achosion unigol.

Camau i'w cymryd ar ôl i'r penderfyniad i wrthod gael ei wneud

7.53 Lle y gwnaed y penderfyniad i wrthod, dylai'r datganiad pleidleisio drwy'r post gael ei:

- farcio gyda 'gwrthodwyd'
- cofnodi ar y rhestr o ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd

- cysylltu ag amlen y papur pleidleisio (neu bapur pleidleisio os nad oes amlen)
- gosod yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd

7.54 Mae gan ymgeiswyr ac asiantau yr hawl i weld datganiadau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd ond, yn yr un modd â gyda'r holl brosesau etholiadol, ni ddylent gyffwrdd â dogfennau. Os byddant yn gwrthwynebu gwrthodiad, dylid marcio'r datganiad pleidleisio drwy'r post â 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad' cyn cael ei gysylltu â'r amlen papur pleidleisio a'i osod yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd. Yn wahanol i ymgeiswyr ac asiantau, nid oes hawl gan arsylwyr a chynrychiolwyr y Comisiwn wrthwynebu gwrthod datganiad pleidleisio drwy'r post.

Agor yr amlenni papurau pleidleisio drwy'r post[48]

7.55 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) agor ar wahân, ar ôl i'r datganiadau pleidleisio drwy'r post gael eu selio i ffwrdd, yr amlenni papurau pleidleisio sy'n weddill sydd wedi'u gosod yn y llestr ar gyfer amlenni papurau pleidleisio ac ymdrin â'u cynnwys:

- Mae papur pleidleisio y mae ei rif yn cyfateb i hwnnw ar yr amlen yn mynd i mewn i'r blwch pleidleisio drwy'r post.
- Dylai papur pleidleisio nad yw ei rif yn cyfateb â hwnnw ar yr amlen gael ei gysylltu â'i amlen, ei farcio gyda 'gwrthodwyd dros dro' a'i roi yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd.
- Dylid marcio amlen papur pleidleisio nad yw'n cynnwys papur pleidleisio gyda 'gwrthodwyd dros dro' a'i roi yn y llestr ar gyfer amlenni papurau pleidleisio a wrthodwyd.

- Lle ymddengys bod papur pleidleisio wedi'i dorri gan y pleidleisiwr gellir ei roi yn y blwch pleidleisio drwy'r post o hyd os yw'r papur pleidleisio drwy'r post yn cynnwys y rhif papur pleidleisio drwy'r post cywir mewn perthynas ag amlen 'A'.

Rhaid cadw papurau pleidleisio wyneb i lawr drwy gydol y broses agor.[49] Dylid dadblygu papurau pleidleisio yn llawn ar ôl eu tynnu allan o'r amlen.

7.56 Er ei fod yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gadw'r papurau pleidleisio wyneb i lawr, gallai fod achlysuron pan fydd ymgeiswyr ac asiantau yn gweld blaen papur pleidleisio. Fodd bynnag, nid oes hawl gan unrhyw un sy'n bresennol yn ystod agor pleidleisiau drwy'r post, sy'n cynnwys staff sy'n gweithio yn y sesiwn agor, ddatgelu unrhyw wybodaeth ynghylch y

[48] Rheoliad 86, RPR 2001.
[49] Rheoliad 84(6), RPR 2001; Rheoliad 84(5), RPR (yr Alban) 2001.

pleidleisiau a fwrwyd ar unrhyw bapur pleidleisio penodol a rhaid iddynt gynnal cyfrinachedd y pleidleisio.[50]

7.57 Rhaid i unrhyw un sy'n bresennol mewn sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post dderbyn copi o'r gofynion cyfrinachedd perthnasol. Dylid eu hatgoffa am y gofynion hyn ac am y gosb, ar euogfarn ddiannod, sef naill ai ddirwy o £5,000, neu chwe mis o garchar yng Nghymru a Lloegr, neu flwyddyn o garchar yn yr Alban.[51]

Cyfateb dogfennau a wahanwyd

7.58 Rhaid cadw dwy restr ar wahân mewn perthynas â phleidleisiau drwy'r post a wrthodwyd:[52]

- rhestr o rifau papurau pleidleisio ar gyfer papurau pleidleisio a dderbyniwyd heb ddatganiadau pleidleisio drwy'r posţ dilys
- rhestr o rifau papurau pleidleisio ar gyfer datganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd heb bapurau pleidleisio

7.59 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wirio'r ddwy restr hon yn ystod sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post ac, os dychwelwyd y datganiad pleidleisio drwy'r post neu bapur pleidleisio coll, rhaid diwygio'r rhestr yn unol â hynny. Dylid trin unrhyw ddogfen a farciwyd yn flaenorol gyda 'gwrthodwyd dros dro' fel pe bai nad oedd erioed wedi cael ei farcio felly. Rhaid gosod y papurau pleidleisio nad ydynt bellach i gael eu trin fel rhai a wrthodwyd dros dro yn y blwch pleidleisio drwy'r post cywir, a dylid gosod y datganiad pleidleisio drwy'r post yn yr amlen gywir.

7.60 Rhaid mynd â'r ddwy restr i'r sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post derfynol lle mae'n rhaid gwirio'r rhestri yn erbyn yr holl bapurau pleidleisio/datganiadau pleidleisio drwy'r post sydd wedi'u dychwelyd ar wahân i'w datganiad pleidleisio drwy'r post/papur pleidleisio erbyn i'r bleidlais gau, a'u cyfateb os yw'n bosib.[53]

7.61 Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod holl gamau derbyn ac agor y pleidleisiau drwy'r post yn cael eu cofnodi. Yn benodol, rhaid iddynt gynnal y ddwy restr o bleidleisiau drwy'r post a wrthodwyd fel y disgrifiwyd ym mharagraff 7.58. Dylai rhestru datganiad pleidleisio drwy'r post neu bapur pleidleisio ddigwydd yn ystod yr agor cyn gynted ag y cânt eu nodi a'u marcio gyda 'gwrthodwyd dros dro' oherwydd diffyg presenoldeb y ddogfennaeth gysylltiedig. Gall hon fod yn broses feichus os yw lefelau pleidleisio drwy'r post yn uchel, ac felly dylid defnyddio staff priodol fedrus neu hyfforddedig.

---

[50] Adran 66(4), RPA 1983.
[51] Adran 66(6), RPA 1983, fel y diwygiwyd yn yr Alban gan Adran 45, Deddf Gweithrediadau Troseddol (Diwygio) (yr Alban) 2007.
[52] Rheoliad 87, RPR 2001.
[53] Rheoliad 88, RPR 2001.

Gallai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ei gael yn ddefnyddiol defnyddio taenlen cyfateb pleidleisiau drwy'r post, y gellir lawrlwytho enghraifft ohoni o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

7.62 Ar ddiwedd pob agoriad, dylid cadw'r rhestru'n ddiogel tan y sesiwn agor nesaf neu'r cyfrif, fel y bo'n briodol. Gallai hefyd fod yn syniad da argraffu copi o'r cofnod fel y mae'n bodoli ar ddiwedd pob sesiwn agor. Ar ôl i ddogfennau gael eu cyfateb, dylid cofnodi hyn ar y rhestri i ddarparu cofnod o gamau a gymerwyd, yn hytrach na chroesi allan y rhifau perthnasol neu eu tynnu oddi ar y rhestr.

Ers cyflwyno'r gofyniad dilysu dynodyddion personol, mae nifer o systemau sganio a gwirio wedi cael eu datblygu. Atgoffir Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) bod y ddeddfwriaeth yn glir am y broses agor ac nid yw'r defnydd o dechnoleg yn golygu y gellir dileu'r prosesau a amlinellwyd uchod mewn unrhyw ffordd.

Selio'r blwch pleidleisio drwy'r post

7.63 Cam olaf y broses agor pleidleisiau drwy'r post yw rhoi'r papurau pleidleisio drwy'r post dilys yn y blwch pleidleisio drwy'r post. Dylid cyfrif y papurau pleidleisio yn gywir a dylid cofnodi'r nifer er mwyn eu cyfateb yn erbyn y nifer a gofnodir yn y dilysu yn y cyfrif. Dylid cadw pleidleisiau drwy'r post mewn sypiau er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd i unrhyw bapur pleidleisio a ganslwyd a'i dynnu allan os bydd angen.

7.64 Dylid sicrhau bod unrhyw asiantau sy'n bresennol yn ymwybodol o nifer y papurau pleidleisio yn y blwch cyn iddo gael ei selio. Gall yr asiantau sy'n bresennol hefyd gysylltu eu seliau eu hunain cyn i'r blwch gael ei storio'n ddiogel tan y cyfrif.

7.65 Dylid hysbysu'r asiantau hynny sy'n dymuno cysylltu eu seliau eu hunain y gall Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dorri'r seliau ac adalw papur pleidleisio sydd wedi cael ei ganslo. Dylid eu hysbysu y gellir gwneud hyn mewn sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post swyddogol y'u gwahoddir i'w mynychu yn unig.

Adalw pleidleisiau drwy'r post a ganslwyd[54]

7.66 O safbwynt papurau pleidleisiau drwy'r post a ganslwyd mae angen adalw'r datganiad pleidleisio drwy'r post a'r papur pleidleisio mewn sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post ffurfiol.

7.67 Lle nad yw pleidlais drwy'r post wedi bod drwy'r broses 'agor' ffurfiol eto dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) agor yr amlen sy'n dod i mewn 'B' a thynnu amlen 'A' sy'n cynnwys y papur pleidleisio a'i chysylltu â'r datganiad

[54] Rheoliad 86A, RPR 2001.

pleidleisio drwy'r post a marcio 'canslwyd' ar y ddau. Rhaid i unrhyw bapurau pleidleisio a ganslwyd gael eu gosod yn y paced ar gyfer papurau pleidleisio a ddifethwyd.

7.68 Lle mae pleidlais drwy'r post wedi'i phrosesu eisoes fel rhan o un o'r sesiynau 'agor' swyddogol, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn adalw'r datganiad pleidleisio o'r paced priodol a thorri'r sêl ar y blwch pleidleisio drwy'r post perthnasol er mwyn adalw'r papur pleidleisio cywir â'r rhif arno. Lle y gosodwyd papurau pleidleisio mewn sypiau, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gallu nodi'r swp lle y gosodwyd y papur pleidleisio, ac fe ddylai hyn helpu gyda dod o hyd i'r papur pleidleisio perthnasol. Ar ôl ail-selio'r blwch pleidleisio drwy'r post dylid marcio 'canslwyd' ar y papur pleidleisio a adalwyd a'r datganiad pleidleisio drwy'r post a'u gosod yn y paced ar gyfer papurau pleidleisio a ddifethwyd.

7.69 Ym mhob achos, dylid adalw pleidleisau drwy'r post a'u datganiadau pleidleisio drwy'r post cysylltiedig yng ngolwg unrhyw ymgeiswyr, asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn neu arsylwyr sy'n bresennol yn y sesiwn agor, a dylid dangos rhifau papurau pleidleisio unrhyw bapurau a ganslwyd i'r asiantau. Fodd bynnag, rhaid cadw'r papurau pleidleisio **wyneb i lawr** drwy gydol y broses adalw er mwyn atal unrhyw bersonau sy'n bresennol rhag gweld sut roedd y pleidleisau wedi'u bwrw.

7.70 Dylid caniatáu i unrhyw asiantau sy'n bresennol fod yn dystion i dorri'r sêl a'r broses adalw ac ail-selio, ac i gysylltu eu sêl eu hunain. Nid yw absenoldeb asiant yn annilysu neu'n atal y gofyniad i adalw pleidleisiau drwy'r post a ganslwyd.

7.71 I gynorthwyo gydag adalw papurau pleidleisio o'r nifer fawr o bapurau pleidleisio a ddychwelwyd, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drefnu system o osod papurau pleidleisio mewn sypiau. Pan osodir papurau pleidleisio mewn sypiau fel rhan o ddilysu dynodyddion personol, dylid cadw unrhyw daflenni pennawd rhifau adnabod sypiau ar y papurau pleidleisio cyhyd â nad ydynt yn dangos enwau, cyfeiriadau na rhifau etholwyr y pleidleiswyr. Gellir tynnu penawdau'r sypiau wrth ddilysu'r papurau pleidleisio yn y cyfrif.

Datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post

7.72 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gwblhau'r datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post (Ffurflen K) ac anfon copi i'r Comisiwn a'r Ysgrifennydd Gwladol rhwng 10 a 25 diwrnod ar ôl diwrnod y pleidleisio.

7.73 Darperir manylion ynghylch dychwelyd y datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post i'r Comisiwn drwy gylchlythyr cyn yr etholiad.

Atodiad – Adnoddau

Hysbysiad o ofynion cyfrinachedd

Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd)

(4) Every person attending the proceedings in connection with the issue or the receipt of ballot papers for persons voting by post shall maintain and aid in maintaining the secrecy of the voting and shall not –

(a) except for some purposes authorised by law, communicate, before the poll is closed, to any person any information obtained at these proceedings as to the official mark; or

(b) except for some purpose authorised by law, communicate to any person at any time any information obtained at these proceedings as to the number or other unique identifying mark on the back of the ballot paper sent to any person; or

(c) except for some purpose authorised by law, attempt to ascertain at the proceedings in connection with the receipt of ballot papers the number or other unique identifying mark on the back of any ballot paper; or

(d) attempt to ascertain at the proceedings in connection with the receipt of the ballot papers the candidate for whom any vote is given in any particular ballot paper or communicate any information with respect thereto obtained at these proceedings.

[...]

(6) If a person acts in contravention of this section he shall be liable on summary conviction [to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or] to imprisonment for a term not exceeding 6 months.

Gwirio llofnodion a dyddiadau geni mewn sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn anelu at ddarparu cyngor ymarferol ar weithdrefnau agor pleidleisiau drwy'r post, gyda sylw arbennig i gynnal gwirio llofnodion a dyddiadau geni â llaw. Maent wedi'u datblygu gan arbenigwyr fforensig o'r Gwasanaeth Gwyddor Fforensig, ynghyd â staff y Comisiwn Etholiadol ei hun, ac yn darparu peth cefndir ynghylch y ffordd y gall etholwyr ysgrifennu llofnodion ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post. Cefnogir y canllawiau hyn gan Wasanaethau Fforensig Awdurdod Gwasanaethau'r Heddlu yr Alban (SPSA). Mae'n darparu tri chwestiwn arweiniol sy'n ddefnyddiol wrth benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod llofnod. Mae hefyd yn darparu coeden gwneud penderfyniadau cam wrth gam i alluogi pobl ag ychydig yn unig o wybodaeth am gymharu llofnodion i gymhwyso'r rheolau yn gyson.

Mae'r Gwasanaeth Gwyddor Fforensig yn Gwmni'r Llywodraeth o fewn perchnogaeth lwyr y Swyddfa Gartref ac mae ganddo dros 60 mlynedd o brofiad mewn gwyddor fforensig. Ers eu sefydlu yn 2007, mae Gwasanaethau Fforensig y SPSA yn cynnig cefnogaeth fforensig i wyth llu yr heddlu yr Alban a'r gymuned cyfiawnder troseddol.

Cyflwynir y canllawiau hyn, fodd bynnag, gan y Comisiwn ac erys y cyfrifoldeb dros ei gynnwys gyda'r Comisiwn.

Nod

Anela'r canllawiau hyn at nodi dull ar gyfer penderfynu a ddylid derbyn llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post ar ôl ei gymharu â llofnod yr etholwr hwnnw a roddwyd eisoes i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Ni fydd yr arweiniad yn dysgu'r person sy'n edrych ar y llofnodion ('yr archwiliwr') i fod yn arbenigwr, ond dylai ei helpu i wneud penderfyniad i dderbyn neu wrthod pleidlais am resymau dilysu y mae modd eu cofnodi.

Wrth bennu dilysrwydd datganiadau pleidleisio drwy'r post, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn fodlon bod y datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau'r gywir ac fel rhan o'r broses honno rhaid iddo gymharu'r dyddiad geni a'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn erbyn y dyddiad geni a'r llofnod yn y cofnod dynodyddion personol.

Llofnodion rheolydd

Bydd rhan fwyaf y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn gwirio'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn erbyn un llofnod a ddarparwyd eisoes ('y llofnod rheolydd'). Dylai Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn ymwybodol bod llofnod person yn amrywio'n naturiol hyd yn oed o fewn cyfnodau amser byr iawn ac na ellir pennu ystod naturiol amrywiad llofnod personol yn llawn drwy samplau mor fach. Felly ein cyngor yw y dylai'r archwiliwr wyro tuag at gynnwys a dim ond gwrthod datganiadau pleidleisio

drwy'r post pan eu bod yn gwbl fodlon nad y llofnod a ddarperir ar y datganiad yw'r un a ddarparwyd adeg ymgeisio. Ein hymagwedd yn y canllawiau hyn yw y dylai Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn hyderus bod llofnod yn dangos gwahaniaethau mawr a sylweddol i'r llofnod rheolydd cyn penderfynu eu bod yn fodlon ar hynny. I grynhoi, oni bai y gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn sicr bod llofnod yn anfoddhaol yna dylid derbyn y llofnod.

Dilysu llofnod yn electronig

Mae llawer o awdurdodau yn defnyddio system wirio electronig i gymharu'r llofnodion a dylai hyn leihau nifer y llofnodion y mae angen eu gwirio'n weledol. Mae amrywiaeth o systemau ar y farchnad a bydd pob un yn ymdrin â'r llofnodion ychydig yn wahanol. Mae rhai o'r systemau hyn yn dangos y llofnod rheolydd a'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post ochr yn ochr ar sgrin cyfrifiadur. Canlyniad hyn yw y bydd y llofnodion i'w harchwilio yn ddelweddau electronig, nid y llofnodion inc eu hunain. Os yw'r sganio wedi cael ei wneud yn iawn a bod y delweddau wedi'u sganio ar ansawdd priodol dylai hyn yn y rhan fwyaf o achosion fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, dylid deall nad yw gwybodaeth sy'n bresennol ar y ddogfen wreiddiol bob amser yn amlwg ar y copïau electronig, felly efallai bydd rhai o'r nodweddion a ddisgrifir yn y canllawiau hyn fod yn anos eu pennu mewn llofnodion a sganiwyd.

Proses awgrymedig

Mae'r broses awgrymedig ar gyfer cymharu llofnodion yn gofyn i'r archwiliwr ateb tri chwestiwn, sef:

- A yw'r llofnodion yn debyg eu siâp?
- A yw llwybrau pin y llofnodion yn debyg?
- A yw'r llofnodion yn debyg eu llithrigrwydd?

Mae'r siart llif a ddarperir gyda'r canllawiau hyn yn anelu at helpu i arwain yr archwiliwr drwy'r broses i ofyn y cwestiynau hyn yn y drefn gywir, ac i helpu cyfiawnhau unrhyw benderfyniad a wneir. Yr egwyddorion sylfaenol i'w cymhwyso yw edrych am wahaniaethau mawr mewn siâp, llwybr pin a llithrigrwydd yn y drefn honno. Os defnyddir y siart llif, bydd yr archwiliwr yn gorffen wrth sgwâr neu gylch gyda llythyren ynddo. Drwy gofnodi'r llythyren os cânt eu herio byddant yn gallu dweud pan eu bod wedi derbyn neu wrthod llofnod penodol. Mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn rhesymol cofnodi'r cod llythyren hwn yn unig. Gellir cyflawni hyn naill ai drwy ychwanegu'r cod llythyren i'r datganiad pleidleisio drwy'r post ger y gair 'gwrthodwyd'; drwy ychwanegu colofn ar y rhestr o bleidleisiau a wrthodwyd ac ychwanegu'r cod llythyren i'r rhes berthnasol, neu drwy ychwanegu'r cod llythyren i unrhyw becynnu y bydd y datganiad a'r papur pleidleisio a wrthodwyd yn cael ei storio ynddo o fewn y llestr. Er nad yw'n benodol ofynnol neu'n awdurdodedig yn y ddeddfwriaeth, ni waherddir gwneud cofnod o'r fath ac felly ystyriwn fod cofnod o'r fath o fewn ysbryd y ddeddfwriaeth.

Mae'r canllawiau yn seiliedig ar wyth egwyddor brofedig ar gyfer archwilio fforensig, a grynhoir yn 'Egwyddorion archwilio', ar dudalennau 49–51.

Gwneud penderfyniad

Mae'r broses gwneud penderfyniadau yn gofyn am farn a mesur o ddisgresiwn; wedi'i nodi yn y canllawiau hyn mae fframwaith a methodoleg a ddatblygwyd mewn perthynas â'r Gwasanaeth Gwyddor Fforensig. Dylai'r broses yr ydych yn ei defnyddio, p'un ai'n electronig, yn weledol neu'n gymysgedd o'r ddwy, gael ei dylunio i leihau'r risg o dderbyn llofnodion anghyfreithlon fel rhai gwirioneddol.

Ar ôl iddynt ennill ymarfer digonol o edrych ar lofnodion, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o archwilwyr yn gallu gwneud penderfyniadau ar lofnodion yn gyflym ac yn hyderus. Mae'r gwiriad gweledol yn rhoi tri maen prawf i archwilwyr seilio eu penderfyniadau arnynt, ac mae'r rhain yn deillio o natur yr ysgrifennu. Disgwylir y bydd rhan fwyaf y llofnodion a archwilir yn amrywio o ran siâp y llofnod gwirioneddol gyda'r un llwybr pin a llithrigrwydd y llofnod gwreiddiol, ac felly dylai'r penderfyniad i dderbyn fod yn un syml.

Dylid pwysleisio bod yr archwiliwr yn edrych am wahaniaethau mawr mewn siâp, llwybr pin neu lithrigrwydd. Mae pob llofnod yn dangos gwahaniaethau i'w gilydd, a maen tramgwydd cyffredin yw, lle nad oes gwahaniaeth mawr yn cael ei weld, rhoddir gormod o bwyslais ar wahaniaethau bach. Os nad oes gwahaniaethau mawr mewn siâp, llwybr pin a llithrigrwydd, yna fwy na thebyg mae'r llofnod yn un wirioneddol a dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn gyfforddus am wneud penderfyniad.

Camau i'w cymryd ar ôl i'r penderfyniad i wrthod gael ei wneud

Wedi gofyn y tri chwestiwn, bydd yr archwiliwr yn darganfod rhai llofnodion y maent yn dymuno eu gwrthod. Dylai'r datganiad pleidleisio drwy'r post:

- gael ei farcio gyda 'gwrthodwyd'
- ei gofnodi ar y rhestr o bapurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd – gallech ei gael ei ddefnyddiol hefyd i gofnodi'r rheswm dros wrthod, er enghraifft drwy gofnodi'r llythyren o'r siart llif
- gael ei gysylltu i'r amlen papur pleidleisio (neu'r papur pleidleisio os nad oes amlen)
- gael ei osod yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd

Mae hawl gan ymgeiswyr ac asiantau weld datganiadau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd, ond fel gyda'r holl brosesau etholiadol ni ddylid cyffwrdd â'r dogfennau.

Os byddant yn gwrthwynebu gwrthodiad yna dylid marcio'r datganiad pleidleisio drwy'r post gyda 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad' cyn cael ei gysylltu â'r amlen papur pleidleisio yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd.

Defnyddio'r siart llif

Dyluniwyd y siart llif i roi arweiniad i'r archwiliwr ar edrych am wahaniaethau sylweddol mewn siâp, llwybr pin a llithrigrwydd. Er bod y penderfyniadau ar y cyfan yn syml, cyflwynir y nodiadau canlynol am bob pwynt derbyn neu wrthod i helpu dod i benderfyniad gan ddefnyddio'r siart. Yn anaml bydd penderfyniadau ar lofnodion yn syml, ac fel arfer mae'n fater o gydbwyso tebygolrwydd. Cefnogir hyn gan eiriad y ddeddfwriaeth, sy'n gofyn bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon. Credwn fod hyn yn caniatáu i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn llofnod oni bai ei fod yn siwr ei fod yn anghyfreithlon.

Gwrthod ar bwynt A: Mae gwahaniaethau mawr yn siâp y llofnod nad ydynt yn debygol o gael eu hegluro gan amrywiad naturiol.

Gwrthod ar bwynt B: Mae'r llofnod mewn enw gwahanol ac nid oes rhan ohono y gellir ei gymharu.

Derbyn ar bwynt X: Mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r ffurflen gais yr un siâp cyffredinol ac mae'r enw yr un peth. Mae gan y llofnodion yr un llwybr pin hefyd ac maent yn debyg o ran llithrigrwydd.

Derbyn ar bwynt Y: Mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r ffurflen gais yr un siâp cyffredinol ac mae'r enw yr un peth. Mae gan y llofnodion yr un llwybr pin hefyd ond mae'r llofnod ar y ffurflen gais yn llai llithrig na'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post. Mae rhesymau gwirioneddol pam y gallai llofnod ar gais fod yn llai llithrig - gweithrediad pin gwael, arwyneb ysgrifennu anwastad etc.

Derbyn ar bwynt Z: Mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r ffurflen gais yr un siâp cyffredinol ac mae'r enw yr un peth. Mae gan y llofnodion yr un llwybr pin hefyd. Fodd bynnag, mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn sylweddol llai llithrig na'r un ar y ffurflen gais, ond mae'r diffyg llithrigrwydd hwn mewn un rhan o'r llofnod yn unig. Mae gweddill y llofnod yn debyg o ran llithrigrwydd i'r llofnod ar y cais, ac mae rhannau hyn yn llofnod yn cyfateb o ran siâp.

Gwrthod ar bwynt C: Mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r ffurflen gais yr un siâp cyffredinol ac mae'r enw yr un peth. Mae gan y llofnodion yr un llwybr pin hefyd. Fodd bynnag, mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn sylweddol llai llithrig na'r un ar y ffurflen gais, ac mae'r diffyg llithrigrwydd hwn nid yn unig mewn un rhan o'r llofnod ond mae drwy'r llofnod cyfan. (Fel canllaw, disgwyliwch ddod o hyd i dair nodwedd annibynnol yn dangos diffyg llithrigrwydd.) Mae rhannau o bosib o'r llofnod sy'n ymddangos yn llithrig, ond nid yw'r rhain yn cyfateb i siâp y rhannau cyfatebol yn y llofnod ar y ffurflen gais.

Derbyn ar bwynt W: Mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r ffurflen gais yr un siâp cyffredinol ac mae'r enw yr un peth. Er bod gwahaniaeth sylweddol yn y llwybr pin a ddefnyddiwyd i lunio'r llofnodion, mae

naill ai'r ddau lofnod yn wael o ran llithrigrwydd neu mae cyfran sylweddol o'r llofnodion yn cyfateb mewn siâp, llwybr pin a llithrigrwydd.

Mae gwahaniaeth mewn llwybr pin yn aml oherwydd bod y llofnod yn cael ei ysgrifennu gan rywun nad yw'n gyfarwydd â'r 'patrymlun llofnod' a ddefnyddir gan berchennog y llofnod. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, yn enwedig yn achos person oedrannus gyda sgil ysgrifennu gwael, gall yr ysgrifennwr fynd y ddryslyd a defnyddio llwybr pin gwahanol. Felly, derbyniwch lofnodion â llwybr pin sy'n ymddangos nad ydynt yn cyfateb pan mae'r ddau lofnod yn wael o ran llithrigrwydd neu lle mae rhannau sylweddol lithrig o'r llofnod yn cyfateb.

Gwrthod ar bwynt D: Mae'r llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r ffurflen gais yr un siâp cyffredinol ac mae'r enw yr un peth. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol yn y llwybr pin a ddefnyddiwyd i lunio'r llofnodion, oherwydd bod y pin yn symud mewn cyfeiriad gwahanol ar bwynt penodol mewn un llofnod o'i gymharu â'r llall. Yn ogystal, mae un o'r llofnodion yn llawer llai llithrig na'r llall neu mae'r ddau o lithrigrwydd rhesymol (nid gwael), ac nad oes unrhyw rannau o'r llofnod sy'n cyfateb yn dda mewn siâp.

Camau ychwanegol lle yr amheuir camymddygiad
Mae'r Comisiwn eisoes wedi argymell y dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gwrthod datganiadau pleidleisio drwy'r post ar ôl cymharu â'r dynodyddion a gyflenwyd bob amser ystyried eu cyfeirio at yr heddlu, yn enwedig os oes patrwm yn amlwg. Os ystyrir hyn, mae nifer o gamau fyddai'n cynorthwyo'r heddlu.

Byddai'n cynorthwyo unrhyw archwiliad fforensig pe byddai menig latecs/plastig yn cael eu gwisgo pan yn trin dogfennau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd amheus.

Pan yn trin y dogfennau, cyffyrddwch â hwy ar yr ymylon yn unig. Cyffyrddwch â'r dogfennau er mwyn eu pecynnu yn unig. Peidiwch â datod styffylau, gwastadu neu newid y ddogfen mewn unrhyw ffordd arall. Osgowch drin y dogfennau i'r graddau eithaf posib.

Dewch o hyd i'r datganiad pleidleisio drwy'r post gwreiddiol a'i holl ddogfennau cysylltiedig â'u gwahanu rhag y papurau pleidleisio eraill.

Cymerwch fag plastig llac neu amlen frown a chofnodi rhif y papur pleidleisio ar y tu allan, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall fel enw'r unigolyn sy'n berchen ar y bleidlais a'r ardal etholiadol lle y gwnaethant bleidleisio. Byddai'n help os byddai'r dyddiad, yr amser, lle y cafwyd hyd i'r papurau dan amheuaeth, pwy sydd wedi'u pecynnu ac unrhyw un arall sydd wedi'u trin yn cael eu cofnodi hefyd.

Gosodwch rannau tenau o gerdyn naill ochr i'r papurau dan amheuaeth (i'w hatal rhag cael eu marcio), eu gosod yn y bag plastig llac neu'r amlen frown a labelwyd eisoes a seliwch y pecyn gyda thâp gludiog.

Gwnewch restr o'r holl ddogfennau a'i chadw'n ddiogel.

Barn y Comisiwn yw bod y diogelu ychwanegol mewn perthynas â chynnwys y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd fel y nodwyd uchod yn rhesymol i gynnal cadw'r llestr ac felly ei gynnwys yn ddiogel.

Bydd y llofnodion a ddefnyddiwyd fel llofnodion rheolyddion, h.y. y llofnodion ar y ceisiadau i bleidleisio drwy'r post, yn bwysig hefyd mewn unrhyw broses fforensig ond nid yw'n debygol y bydd angen ei harchwilio am olion bysedd, DNA neu fathau eraill o dystiolaeth. Ar yr amod eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ac y gellir eu hadfer yn ddiweddarach byddai fwy na thebyg yn well aros am gyfarwyddiadau gan yr heddlu i benderfynu sut y dylid pecynnu a chyflwyno'r rhain.

Siart llif



EGWYDDOR 1
Ni ellir o reidrwydd cysylltu ysgrifen a llofnod unigolyn.

EGWYDDOR 2
Mae amrywiad naturiol i lofnod un unigolyn.

EGWYDDOR 3
Mae ystod o amrywiad i lofnod un unigolyn na ellir ei bennu o un llofnod rheolydd.

EGWYDDOR 4
Mae cyfateb cyd-ddigwyddiadol yn anghyffredin

EGWYDDOR 5
Rhaid i lofnodion fod yn ddarluniadol debyg i gael eu derbyn.

EGWYDDOR 6
Rhaid i ffugiwr llwyddiannus atgynhyrchu siâp a llithrigrwydd llofnod.

EGWYDDOR 7
Mae gan lofnodion gwirioneddol yr un llwybr pin fel arfer.

EGWYDDOR 8
Mae llofnodion gwirioneddol fel arfer yn debyg eu llithrigrwydd.

SIÂP*LLWYBR PIN*LLITHRIGRWYDD

Egwyddorion archwilio

EGWYDDOR 1: Ni fydd ysgrifen a llofnod unigolyn o reidrwydd yn gysylltiedig: cymharwch tebyg at ei debyg
Ni fydd ysgrifen a llofnod unigolyn o reidrwydd yn gysylltiedig, felly gallai rhywun sy'n ysgrifennu ei lofnod mewn ysgrifen arferol ar y ffurflen gais ac fel llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post gael ei lofnod wedi'i wrthod.

Mae rhai pobl yn defnyddio eu llofnod llawn ar rai dogfennau a ffurf wedi'i thalfyrru ar eraill; er hynny, dylai fod rhannau o'r llofnod o hyd y gellir eu cymharu ac ni ddylai diffyg un rhan o'r llofnod (e.e. John Smith ar un a J Smith ar y llall) gael ei ystyried fel gwahaniaeth mewn arddull. Fodd bynnag, os yw'r enw wedi'i sillafu'n anghywir (e.e. Smith yn lle Smythe) yna dylid gwrthod hyn ar bwynt gwrthod B gan fod pobl fel arfer yn gyson am y ffordd y maent yn sillafu'u henw.

Weithiau bydd pobl wedi newid eu henw rhwng llofnodi'r cais a llofnodi'r datganiad pleidleisio drwy'r post, er enghraifft pan fyddant yn priodi; eu cyfrifoldeb hwy yw hysbysu'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan fydd hyn yn digwydd a darparu llofnod rheolydd newydd. Gallai fod rhannau o'r llofnod y gellir eu cymharu o hyd (e.e. yr enw cyntaf, os caiff ei ddefnyddio), ond dylid gwrthod llofnodion mewn enwau gwahanol heb unrhyw bwyntiau cymharu.

EGWYDDOR 2: Mae i lofnod un unigolyn amrywiad naturiol
Gellir ystyried llofnod fel arfer a ddysgwyd ac felly mae llofnod un unigolyn yn cydymffurfio â phatrymlun penodol sydd wedi'i ddatblygu dros gyfnod o amser. Mae felly'n awtomatig i'r unigolyn hwnnw (h.y. nid oes rhaid iddynt gofio'r patrymlun bob amser maent yn dymuno ysgrifennu eu llofnod), ond nid peiriannau yw pobl ac felly nid ydynt yn atgynhyrchu'r patrymlun yn union yr un siâp bob tro. Bydd y meddalwedd sy'n cymharu llofnodion wedi'i osod i wrthod llofnodion oherwydd eu bod yn ymddangos yn 'rhy berffaith' am y rhesymau hyn.

Gall llofnod un unigolyn amrywio o funud i funud ac o ddiwrnod i ddiwrnod, yn dibynnu ar yr amgylchiadau pan fyddant yn llofnodi. Caiff ei effeithio gan yr oerfel, safle ysgrifennu, y pin a ddefnyddir, yr arwyneb y maent yn ysgrifennu arno, iechyd ac ati, ond bydd yn syrthio o fewn ystod o amrywiad sy'n nodweddiadol o'r unigolyn hwnnw.

EGWYDDOR 3: Mae i lofnod un unigolyn ystod o amrywiad na ellir ei bennu o un llofnod rheolydd
Gall llofnod un unigolyn gael ystod fach o amrywiad neu ystod fawr o amrywiad. Er y gellir cyffredinoli i raddau, mae'n fwy diogel tybio na ellir pennu ystod yr amrywiad ar gyfer un unigolyn o un llofnod rheolydd. Byddwch bob amser yn gallu dod o hyd i wahaniaethau rhwng dau lofnod, ond efallai na fydd y gwahaniaeth yn arwyddocaol. Felly dylai'r archwiliwr ganiatáu ar gyfer ystod fawr o amrywiad a dylai wrthod y datganiad pleidleisio drwy'r post dim ond os yw'n dangos gwahaniaeth mawr i'r llofnod ar y cais.

EGWYDDOR 4: Mae cyfateb cyd-ddigwyddiadol yn anghyffredin

Mae dyfalu sut mae llofnod person yn edrych o'u henw yn unig yn anodd iawn, a daw'n anos fyth wrth i'r llofnod fynd yn fwy cymhleth. Mae cyfateb cyd-ddigwyddiadol yn debygol o ddigwydd dim ond pan mae'r arddull ysgrifennu a ddefnyddir yn syml, ond hyd yn oed bryd hynny byddai'n anghyffredin. Os yw'r ffugiwr yn dyfalu'r llofnod mae annhebygol iawn y bydd yr un siâp neu'n dilyn yr un llwybr pin.

EGWYDDOR 5: Rhaid i lofnodion fod yn debyg o ran siâp i gael eu derbyn

Os yw pobl am ddefnyddio'u llofnod fel modd adnabod, rhaid iddynt gynhyrchu llofnodion sy'n edrych yn debyg. Dylai unrhyw beth sy'n sylweddol wahanol gael ei wrthod felly (pwynt gwrthod A). Yma mae'r archwiliwr yn edrych am siapiau gwahanol iawn, nid gwahaniaethau bach a achosir gan amrywiad naturiol, a dylent wrthod dim ond pan fydd yn llofnod mewn gwirionedd yn siâp cwbl wahanol.

Weithiau mae'r person yn llofnodi'r ffurflen anghywir neu'n llofnodi mewn enw gwahanol (e.e. rhywun yn llofnodi gyda'u henw priod ar un achlysur a'u henw morwynol ar un arall). Lle mae rhannau o'r llofnod y gellir eu cymharu (er enghraifft, os ydynt yn defnyddio'r un cyfenw ond enw cyntaf gwahanol) yna dylid cymharu'r rhannau y gellir eu cymharu ac y dylid diystyru'n rhannau gwahanol (gan na all rywun gymharu rhannau o'r llofnod sy'n absennol). Os nad oes unrhyw beth y gellir ei gymharu, yna dylid gwrthod y llofnod (pwynt gwrthod B).

EGWYDDOR 6: Mae'n rhaid i ffugiwr llwyddiannus atgynhyrchu siâp a llithrigrwydd llofnod

Os oes gan y person sy'n ceisio dwyn pleidlais enghraifft ar gael o lofnod gwirioneddol y person sy'n berchen ar y bleidlais, efallai byddant yn ceisio efelychu'r llofnod. (Sylwer ein bod yn defnyddio'r term efelychu, nid copïo, er mwyn gwahaniaethu rhwng yr ymgais fwriadol hon i atgynhyrchu'r llofnod a'r weithred syml o lungopïo'r llofnod). Mae sawl ffordd wahanol o efelychu llofnod. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn defnyddio efelychiad llawrydd drwy osod y llofnod o'u blaenau a cheisio atgynhyrchu'r llwybr pin a'r siâp. Gall eraill geisio dargopïo'r llofnod neu ei atgynhyrchu o'u cof.

Pan mae llofnodion yn gymharol syml eu cynllun mae'n bosib cynhyrchu copi rhesymol a gallai'r rhain gael eu derbyn gan yr archwiliwr. Ni fydd y broses yn gwahaniaethu rhwng efelychiad da a llofnod gwirioneddol. Wrth i'r llofnod ddod yn fwy a mwy cymhleth daw efelychu yn anos. Nid yw'r rhan fwyaf o ffugwyr yn ymarfer llawer a byddant yn cael y siâp, y llwybr pin neu'r llithrigrwydd yn anghywir. Mae fel arfer yn bosib cael naill ai'r siâp neu'r llithrigrwydd yn gywir, ond mae'n anodd iawn cael y siâp a'r llithrigrwydd yn gywir ym mhob un ond y symlaf o lofnodion.

EGWYDDOR 7: Mae gan lofnodion gwirioneddol yr un llwybr pin fel arfer

Y llwybr pin yw'r ffordd mae'r pin yn symud ar draws y papur. Mae'n arfer a ddysgwyd i lawer o ysgrifenwyr ac felly byddant yn dilyn yr un llwybr pin yn awtomatig, warth bynnag amgylchiadau eraill a allai fod yn effeithio ar eu hysgrifennu (fel oerfel, safle ysgrifennu ac ati.). Mae'n ffurfio patrymlun sylfaenol y llofnod ac mae felly yn ddangosydd da o a yw'r llofnod yn un

gwirioneddol. Mae llofnod cymhleth, llithrig gyda'r un llwybr pin bron yn ddieithriad gan yr un awdur.

Anogir yr archwiliwr i ddychmygu sut mae'r pin yn symud wrth wneud llofnod. Mae hyn yn cynnwys y symudiadau mae'r pin yn eu gwneud oddi ar y papur i fynd o ddiwedd un llythyren i ddechrau'r nesaf. Gwahaniaeth arwyddocaol yw pan mae'r pin yn symud i fyny yn lle i lawr ar bwynt penodol yn y llofnod, neu'n glocwedd yn hytrach na gwrthglocwedd, o'r chwith i'r dde yn lle o'r dde i'r chwith, ac ati. Mewn rhai llofnodion gallai eu golwg gael eu newid yn sylweddol oherwydd bod y pin wedi gadael y papur mewn un llofnod ond nid yn y llall, fell mae'r strôc gysylltiol yn amlwg. Ni ystyrir bod hyn yn wahaniaeth arwyddocaol mewn llwybr pin.

EGWYDDOR 8: Mae llofnodion gwirioneddol fel arfer yn debyg eu llithrigrwydd

Mae llithrigrwydd yn adlewyrchiad o sgiliau ysgrifennu unigolyn. Mae pobl fel arfer yn ysgrifennu gyda llithrigrwydd tebyg drwy'r amser. Mae yna eithriadau, er enghraifft pan fydd meddyginiaeth neu anafiadau yn dylanwadu ar yr ysgrifennu, ond mae'r rhain yn anghyffredin.

Gall ysgrifenwyr medrus fel arfer ysgrifennu'n gyflym ac felly gallant ysgrifennu gyda llithrigrwydd da, y mae arwyddion ohono yn cynnwys:

- cromliniau llyfn
- amrywiad mewn pwysau'r pin
- diwedd llythrennau yn daprog
- cysylltu tair neu fwy o lythrennau at ei gilydd
- y pin mewn cysylltiad â'r papur am rannau hir o'r llofnod
- elfennau blodeuog, strociau arwain a strociau ymadael

Ar y pen eithaf arall mae rhai pobl, yn arbennig yr oedrannus neu'r methedig, nad oes ganddynt sgiliau ysgrifennu da ac felly'n dangos arwyddion o lithrigrwydd gwael, sef:

- cromliniau ysgytiol
- pwysau pin gwastad drwy'r amser
- diwedd llythrennau yn ddi-fin
- llythrennau ar wahân
- codi'r pin, oedi a smotiau
- cynllun syml

Mae llawer o efelychiadau wedi'u hysgrifennu â llithrigrwydd gwael, ond dylid nodi nad yw llithrigrwydd gwael o reidrwydd yn arwydd o efelychu. Mae'n bwysig bod yn archwiliwr yn edrych am wahaniaethau mawr yn y llithrigrwydd ac nid llithrigrwydd gwael yn unig, gan y gall y cyntaf fod yn arwydd o wahanol ysgrifennwyr yn cynhyrchu'r llofnodion.